

ECO'R WYDDFA

Rhif 66

IONAWR

Pris 15c

NOSON FAWR Y MOTOBEICWYR IEUAINC



'Roedd nos Fawrth, Rhagfyr 2, yn achlysur pwysig iawn i griw o fotobeicwyr ieuainc Clwb Padarn. Cynhaliwyd eu cyfarfod gwobrwyo yn un o ystafelloedd mawr gwesty'r Fictoria, Llanberis – ac 'roedd y lle'n orlawn o aelodau, eu rheini a'u cefnogwyr.

Wrth gyflwyno'r gwobrau rhoddodd Cadeirydd y Clwb, Owen Wyn Jones o Ddeiniolen, adroddiad ar weithgareddau'r flwyddyn. Bu'n dymor llwyddiannus iawn a diolchodd i'r 70 aelod a'u rhieni am eu cefnogaeth frwd. Er mai o fro'r Eco y daw'r mwyafrif o'r aelodau daw eraill o bellteroedd – Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Cyffordd Llandudno a Chorwen. Diolchodd hefyd i'r ffermwyr lleol am roi benthyg eu tir i'r clwb ac i'r pwyllgor ac i rai unigolion

am roi o'u hamser er budd a phleser y motobeicwyr ieuainc. Talwyd teyrnged arbennig i Gwilym Williams (Crefft Elidir), Deiniolen am ei wasanaeth brwd a di-flino i'r clwb a chyflwynwyd rhodd iddo ar ran y clwb gan y Cadeirydd.

Aethpwyd ati i gyflwyno y llu medalau ('roedd un i bob aelod fu'n cystadlu), tlysau a'r tariannau mewn awyrgylch gartrefol, braf.

Enwau'r enillwyr ar dudalen 10

CADAIR GWYNETH (ELIDIR) ELENİ



ELENİ, yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, Gwyneth Davies o Ddinorwig oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair.

Mae Gwyneth, sy'n ddisgybl yn y 6ed dosbarth (2il flwyddyn), yn astudio Hanes, Saesneg a Choginio; a hi hefyd yw capten yr ysgol eleni. Ei bwriad yw mynd i Goleg Prifysgol Caerdydd y flwyddyn nesaf i astudio coginio ymhellach, ac wedyn hoffai fynd yn athrawes neu'n newyddiadurwraig. Ei phrif ddiddordebau yw darllen a gwrando ar gerddoriaeth.

John Ogwen oedd beirniad y gystadleuaeth a thraddodwyd y feirniadaeth, yn ei absenoldeb, gan ei wraig Maureen Rhys, oedd hefyd yn llywydd yr Eisteddfod eleni.

Cafwyd canmolïaeth uchel i'r gystadleuaeth am y gadair, sef ysgrifennu stori ar y testun 'Breuddwyd'. Yr oedd Gwyneth wedi ysgrifennu am atgofion hen ŵr am ei wraig – tybiai ei bod yn fyw o hyd a hithau wedi marw.

Llongyfarchiadau unwaith eto Gwyneth a phob lwc yn y dyfodol!

DATBLYGIAD CYFFROUS YN LLANBERIS

'Does 'na unlle i gyfarfod yn Llanbêr – dim lle digon mawr na digon clyd!' Sawl tro y clywyd y gŵyn deudwch? Efallai y cofiwch i Eco'r Wyddfa y llynedd adrodd hanes Cwmni Drama Llanberis yn methu perfformio'n nes na Llanrug oherwydd y diffyg.

Wel, nid felly y bydd hi mwyach oherwydd ddechrau Rhagfyr agorwyd Stafell Adloniant newydd sbon ym Mwyty Fferm Bron Eryri. Fel y disgwyliech, bydd yno ddisgos, grwpiau pop, nosweithiau llawen ac ati a drefnir gan Fron Eryri ei hun, ond bydd y Stafell hon hefyd ar gael ar gyfer nosweithiau a drefnir gan eraill. Croesewir digwyddiadau megis gyrfaeodd chwist neu nosweithiau ffilmiau, ac, fel petai i bwysleisio'r newid er gwell, yn gynnar ym 1982, mae Cwmni Drama Llanberis yn gobeithio rhoi perfformiad agoriadol eu drama ddiweddarach – ar ei domen ei hun y tro hwn!

ADLONİANT

Bydd patrwm rheolaidd i'r adloniant arferol – Disgo bob nos Fercher, Country & Western bob yn ail nos Iau, grwpiau Cymraeg ar nos Wener a Chabaret bob nos Sadwrn. Pwysleisir mai ystwyth yw'r trefniadau hyn. Byddai rheolwyr Bron Eryri yn falch o ganiatáu lle i unrhyw syniad da ar y nosweithiau yma. Mae 'na le i 300 o bobl yn y Stafell Adloniant, mwy na mannau fel Plas Coch, er enghraifft. Gellir felly ddenu'r gorau mewn adloniant a dal i gynnig ticedi am brisiau rhad.

DAWNSIO YN YR AWYR!

Un o brif atyniadau'r disgos a'r dawnsiau 'byw' fydd y goleuadau lliwgar. 'Ffantastig' yw'r unig air i'w disgrifio. Maent yn y to, ar y waliau, yn y llawr, yn troi, yn fflachio i rhythm y band, ac yn peintio'r perfformwyr a'r dawnsiwr mewn enfys o liwiau.

Edrychwch yn arbennig ar oleuadau'r llawr – mi daerwch eich bod yn dawnsio yn yr awyr! Bydd eich côt yn ddiogel tra byddwch yn mwynhau eich hun. Fe'i dodir mewn stafell arbennig gydag aelod o'r staff yn ei gwyllo'n gyson. A chan mai 'Free House' yw Bron Eryri mae dewis da o ddiodydd i dorri'ch syched os yw'r dawnsio'n rhy boeth. 'Y gorau yn y Gogledd' oedd barn un grŵp o Gaer am adnoddau'r stafell.

Buddsoddwyd miloedd lawer yn y fenter ac mae Alffie Hughes a phawb arall cysylltiedig yn pwysleisio nad cystadlu â chyfleusterau eraill megis Oriel newydd Eryri a wneir, eithr llenwi bwlch sydd ar hyn o bryd yn boenus o wag. Pan ddatblygir cyfleusterau eraill yn y pentref, bydd Bron Eryri'n canolbwyntio ar raglen fwy arferol i westy.

Meddai Mr Hughes "Bobl Llanbêr a holl gylch Eco'r Wyddfa, da chi manteisiwch ar y datblygiad rhagorol hwn. Mae o'n rhy dda i'w fethu!"

O EISTEDDFOD BETHEL



Y bardd buddugol, Mrs Alys Jones a Mr Geraint Elis sy'n cyflwyno yn ystod seremoni'r cadeirio.



Rhai o gystadleuwyr ieuengaf eisteddfod Bethel. Trowch i dudalen 19 am ragor o luniau a'r canlyniadau.

ECO'R WYDDFA

Rhif 66
IONAWR 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penylllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
Padarn 561

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniolen,
Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penylllyn
329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
IONAWR 28
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
IONAWR 20
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

O BATAGONIA

Tachwedd 25, 1981.

Annwyl Syr,

Yr ydym wedi derbyn 'Eco'r
Wyddfa' gyda'r erthygl
Goffadwriaeth i'r
cyn-Archdderwydd y Parch R.
Bryn Williams, wedi ei
hysgrifennu gan Mrs Mary Lloyd
Williams, Llanrug.

Cefais yr ysgrif yn un dda
iawn, ac yr ydym yn falch iawn
ohoni ac yn diolch i Mrs Lloyd
Williams.

Y mae'r ysgrif yn crybwyll pa
morfaith oedd gwaith Bryn wedi
bod. Yn wir credaf mai ef sydd
wedi ysgrifennu fwyaf am Y
Wladfa o bawb. Mae hynny yn
rhesymol iawn gan ei fod wedi
byw yma er yn ifanc iawn tan yr
oedd yn un ar hugain oed, ac yn
cael y fraint o fynd yn ôl gartref i
Gymru i gael addysg. Yr oedd ei
wybodaeth o'r iaith Sbaeneg, a
ddysgodd yn ysgolion y Wladfa
yn ei gymhwyso i ysgrifennu
llyfrau yn yr iaith honno. Hefyd
deallaf iddo gyfieithu llyfrau fel
'Bodas de Sangre' gan Federico
Garcia Lorca i'r Gymraeg, ar gais
rhanbarth theatr Prifysgol
Cymru, a bod hon wedi cael ei
hactio gan Goleg Aberystwyth.

Credaf fi, fel gwladfawr, y
gallaf ddweud fy mod yn credu
fod cael ei fagu yn y Wladfa ac
wedi dysgu ei hanes, pan yn
blentyn, wedi agor y ffordd i
Bryn i ddyfod yn ysgrifennwr o
nod. Hyn a ddywedaf er mwyn i'r
Wladfa gael ychydig o glod
hefyd.

Os y daw ei hunagofiant allan,
mae'n sicr y bydd darllen mawr
arno yma yn y Wladfa. Gobeithio
y caiff ei gyhoeddi. Edrychwn
ymlaen at hynny.

Hyn, gyda'r cofion caredicaf
atoch, a dymuniadau da'r
Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i
bawb, oddi wrth bawb yn y
Wladfa.

Glyn Ceiriog Hughes,
76 Abraham Matthews,
9100 Trelew,
Chubut,
Argentina.

AM REDEG YN ENW'R ECO

Annwyl Syr,

Darllenais yn y rhifyn
diwethaf fod yr Eco eisieu ffyrdd
o godi arian. Yr wyf fi yn fodlon
rhedeg 26 milltir i'ch helpu.
Buaswn yn dra diolchgar o gael
eich caniatad i fynd o amgylch y
pentref gyda ffurflen i gael fy
nodd.

Yr eiddoch yn gywir,
Owain Eilir Jones,
18 Hafan Elan
Llanrug

Rhagorol! Mae'r syniad yn un
gwreiddiol ac yn un a all
ddenu llawer o
gyhoeddusrwydd i'r Eco yn
ogystal ag arian. Golyga
hefyd, wrth gwrs, gryn aberth
ar dy ran ac yr ydym yn diolch
o waelod calon i ti am dy
gynnig hael. Dim ond
gobeithio nad wyt yn bwriadu
cael cwmni un neu ddau o'r
golygyddion ar y daith! —
Gol.

GWYLIAU YN Y BRIFDDINAS

Annwyl Olygydd,

Dyma'r adeg pan fydd
meddyliau eich darllenwyr yn
troi tuag at wyliau y flwyddyn
nesaf a chyda hyn, fe welir llif o
hysbysebion lliwgar yn denu
pawb i Sbaen, Bermuda ac i ben
draw'r byd.

A gawn ni, Gymry Cymraeg
Caerdydd, achub y blaen ar y
cwmnïau mawrion hyn drwy
estyn gwahoddiad cynnes i'ch
darllenwyr i ddod am wyliau
atom ni i Brifddinas Cymru.

Fel y gwyddoch efallai, yr
ydym ni, aelodau Capel
Heol-y-Crws, Caerdydd, yn
wynebu'r dasg o godi miloedd o
bunnau i sicrhau fod gennym
addoldy diogel uwch ein pennau,
ac mewn ymdrech i sicrhau'r nod
teilwng hwnnw, yr ydym am
agor ein drysau i'r sawl a fydd
ddod atom am wythnos o wyliau.

Cewch groeso cynnes ar
aelwyd Gymraeg a chyfle i weld
ein prifddinas — ei siopau a'i
chestyll, ei meysydd chwarae a'i
hamgueddfeydd. Cewch
gyfarwyddiadau ar sut i fynd o
gwmpas ac yn fwy pwysig,
efallai, le o flaen y tŷ i barcio'r car
am wythnos heb angen ei
symud.

Am swper, gwely a brecwast
am saith noson fe ofynnir £75 yn
unig. Y cyfan sydd angen i chwi
i'w wneud yw cysylltu â

Mrs Buddug Lloyd,
22 Lakeside Drive
Cyncoed, Caerdydd
Ffôn (0222 751570)

CYRSIAU YM MHLAS TAN Y BWLCH AR GYFER Y FLWYDDYN NEWYDD

Ceir mwy o fanylion am y cyrsiau
isod oddi wrth Y Pennaeth, Plas
Tan y Bwlch, Maentwrog,
Gwynedd. Ffôn Maentwrog 324.
Ionawr 22-24 — Gwneud Dillad I (2
ddiwrnod, £23.80). Cyfle bendigedig i
chwi ferched ddysgu rhai o
gyfrinachau'r grefft o wneud dillad.

Ionawr 29-31 — Adar y Glannau (2
ddiwrnod, £23.80). Dyma'r adeg orau
o'r flwyddyn i weld yr hwyaid
gwylltion ac adar eraill sydd yn
ymweld â ni yn y gaeaf. Bydd Ted
Breeze Jones yn arwain.

Chwefror 19-21 — Gwneud Dillad II (2
ddiwrnod, £23.80). Cyfle i chi gael
dod â defnydd a pheiriant gwnio
gyda chi ac i setlo i lawr am y
penwythnos, i wnïo. Bydd Mrs.
Megan Williams ar gael i ddatgelu
ambell gyfrinach ymarferol.

Mawrth 12-14 — Llên Gwerin. (2
ddiwrnod, £23.80). Dyma'r trydydd
cwrw mewn cyfres hynod
lwyddiannus a chynhyrchiol. Y tro
yma bydd y pwyslais ar dylwyth teg,
cewri ac ambell fwgan!

Ebrill 30-Mai 3 — Adar Eryri (3
diwrnod, £39.30). Cyfle i adaryddia
ar yr adeg orau o'r flwyddyn, eto yng
nghwmni Ted Breeze Jones.

Mai 29-Mehefin 5 — Y Celtiaid yn
Ewrop (Pris tua: £200.00). Yn dilyn y
daith lwyddiannus i'r Arddangosfa
Geltaidd yn Hallein flwyddyn yn ôl,
dyma daith i olrhain y Celtiaid yn
Tsechoslofacia.

Holwch hefyd am y ddarpariaeth ar
gyfer grwpiau i ddod i ymweld â'r
Plas (Darlithiau, Y Gerddi, Bwffe,
etc.).


Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda
oddi wrth
PAT a MOIRA

SIOP CHIPS WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 583

Byddwn ar agor
drwy'r gaeaf

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

**GWASANAETHAU
TELEDU**
Ffôn: Llanberis 545

DEINIOLEN

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar Dachwedd 23 yn Ysgol Gwaun Gynfi pryd y cafwyd noson o 'Frethyn Cartref'. Trefnwyd y noson gan Mr R. Williams, Caradog Place a llywyddwyd gan Mr Irfon Morris. Cafwyd eitemau gan aelodau'r gwahanol eglwysi ac 'roedd y noson yn ddiffr iawn.

DYDDIADUR Y MIS - Ar Ionawr 4, bydd Cyfarfod dan nawdd Cyngor Eglwysi yng Nghapel Libanus am saith o'r gloch ac ar Ionawr 25, bydd Cymdeithas Lenyddol Undebol yn cyfarfod yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr W. Iolen Hughes, Tŷ'r Ysgol, Rhiwlas, ddiolch yn arbennig iawn, i feddyg y teulu, y llawfeddyg a'r nyrsus yn Adran Lawfeddygol Isaf, Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor am eu gofal a'u caredigrwydd.

Diolch hefyd i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu galwadau, y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Diolch o galon i bawb am bopeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Nos Lun, Rhagfyr 7, cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol. Y VCO oedd Mrs Treen, gyda Mrs Dodds a Mrs Thomas, Caernarfon yn ei chynorthwyo. Croesawyd hwy gan y llywydd, a darllenodd y llythyr misol. Darllenwyd cofnodion llawn o'r flwyddyn gan yr ysgrifennydd, Mrs B.W. Davies. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Eirlys L. Jones, y trysorydd. Enwebwyd a ganlyn ar y Pwyllgor am y flwyddyn 1982: llywydd, Mrs J. Eirlys Williams; is-lywydd, Mrs Rita Jones; ysgrifennydd, Mrs Beti Wyn Davies; trysorydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones; Pwyllgor - Mrs Beryl Hughes, Mrs Marian Wyn Williams, Miss Kathleen J. Jones, Mrs Marian Williams, Mrs Gwen Hughes, Mrs Sally Lewis a Mrs Eirian Jones. Enillwyd y wobwr Iwcus gan Mrs Sally Lewis yn rhoddedig gan Miss Kathleen Jones. Diolchwyd i Mrs Treen a'i chynorthwyyr gan Mrs Williams, Y Bwthyn, Mrs Rita Jones a Mrs Nan Williams.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr W.J. Eames, Pennaeth yr Ysgol, am archwilio'r llyfrau. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 11 pryd y daw Mrs Griffith, Llanwnda i sôn am ei gwaith yn y Ganolfan Gymorth.

DYMUNIADAU DA i Mrs Katie Jones, Foel Gron, Dinorwig sydd yn cael ei phen-blwydd yn 84 ddydd Gwener, Rhagfyr 11. Dymuniadau gorau oddi wrth Kathleen a Tommy, Prenteg.

CYNGERDD YN THEATR GWYNEDD nos Sul, Rhagfyr 20, gyda Chôr y Traeth, Mabel Roberts - Soprano, Gwlith (grŵp o fro'r Eco), Seindorf Deiniolen; a'r arweinydd fydd Mr

J.O. Roberts. Bydd yna hefyd ganu carolau cynulleidfaoi.

NEWYDDION Y SEINDORF - Unwaith eto mae'r seindorf yn amlwg yn y Newyddion. Ar Dachwedd 28 buont yn cystadlu mewn cystadleuaeth yng Ngheir Connah. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Seindorf gystadlu yng Ngheir Connah o dan yr arweinydd presennol, sef Mr D. Williams. Rhoddwyd canmoliaeth uchel iawn gan y beirniad i'r cystadleuwyr yn y dosbarth yma. Y canlyniad terfynol oedd: Royal Oakley 185 o farciau, 2, Deiniolen 184 o farciau, 3, Conwy 182 o farciau.

Llongyfarchiadau calonnog i'r Seindorf.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen nos Fercher, Rhagfyr 2. Cafwyd adroddiad gan Mr Gwyn Parry o'r Gynhadledd Flynyddol yng Nghaerfyrddin, a llywyddiant Mr Dafydd Wigley i gael ei ethol yn llywydd newydd Plaid Cymru yn dilyn ymddeoliad Dr Gwynfor Evans.

Penderfynwyd cynnal pwyllgor blynnyddol y gangen nos Lun, Ionawr 11, yn Ystafell y Seindorf am 7 o'r gloch yng nghwmni Mr Aled Griffith, trefnydd etholaeth Arfon o Blaid Cymru. Estynnir croeso i'r holl aelodau.

Enillwyd y Clwb 200 mis Hydref oedd: rhif 100, £12 - John Gerwyn Jones, 3 Tai Gweledfa. Rhif 99, £8 - Owen Glyn Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont.

Mis Tachwedd: rhif 113 - George Davies, 11 Ysgubor Goch, Caernarfon; rhif 1, £8 - Albert Parry, 45 Pentre Helen, Deiniolen.

Mis Rhagfyr: £25, rhif 195 - J.E. Morris, 1 Tai Dinowrig, Clwt-y-bont, Deiniolen. £15, rhif 153 - Margaret Williams, Rhwng-y-Ddwyrd. £5, Rhif 143 - Elizabeth Foster, 98 Pentre Helen. £15 (Nadolig), rhif 197 - Andrew Griffith, Tan-y-Bwlch, Dinorwig. £15 (Nadolig) rhif 19 - Helen Wyn Lewis, Stryd Fawr.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y clinig, ar Ragfyr 1. Llywyddwyd yn absenoldeb Mrs C. Marren gan Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig. Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Thomas, Berthan Gron. Hefyd yr oedd Mrs Megan Morris wedi paratoi gêm o Bingo ac fe'i henillwyd gan Mrs Myfanwy Jones, 4 Pentre Helen a Mrs Evans, 3 Hafod Olau. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol: Mrs Annie Lloyd Jones, 5 Tai Cynfi; Mrs Maggie Morris, 9 Tai Marian; Mrs Maggie Jones, 7 Hafod Olau; a Mrs Sarah Roberts, 27 Hafod Olau. Bydd yr aelodau yn cyfarfod eto ym mis Ionawr. Daw manylion ymhellach ymlaen.

HERIO'R ELFENNAU AM £820



Ar Hydref 25, cychwynnodd 24 o ferched ac wyth o ddynion o waith Glyn Protective Clothing, Llanberis ar daith gerdded nodedig i ben yr Wyddfa ac yn ôl. Ymateb oeddent i apêl Jimmy Saville ar ran ysbyty Stoke Mandeville.

Pan oeddynt tua hanner y ffordd dechreuodd droi tywydd a gorfu i naw ohonynt roi'r gorau iddi. Gwaethygodd y tywydd, cododd y gwynt a dechreuodd fwrw eira. O tua tri-chwarter y ffordd i'r copa roedd rhaid iddynt gerdded drwy luwchfeydd o ddwy droedfedd. Ar hynny o bryd roeddent yn diolch fod y paratodau wedi'u gwneud yn iawn a'u bod i gyd yn gwisgo dilladau cynnes ac esgidiau addas. Roeddynt hefyd mewn cysylltiad â Warden y Parc Cenedlaethol ac â'r tîm achub lleol.

Cynghorodd y tîm achub y merched i droi'n ôl, ond ymlaen yr aethant, yn wlyb, a'u gwalltiau wedi rhewi. Cyraeddasant y copa yn hollol luddiedig ond yn falch iawn o'u gwrhydri.

Roedd dychwelyd yn llawer haws yn enwedig o wybod fod bwffé wedi ei baratoi iddynt mewn gwesty lleol. Er mor flinedig oedd pawb, 'roedd bob un wedi mwynhau ei hun ac yn goron i'r cwbl codwyd £820 tuag at achos teilwng iawn. Llongyfarchiadau iddynt.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau'r Eco.

£1 - Di-enw, Deiniolen.
50c - Mrs Katie Jones, 13 Pentre Helen, Deiniolen.

£5 - Mr a Mrs E.J. Owen, Falmouth, Cernyw.

£1 - Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel, Dinorwig.

£2 - Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

£5 - Di-enw, Pen Llŷn.

CLWB CEFNOGWYR YR ECO

Yn barod mae nifer ohonoch wedi ymaelodi â'r clwb ond mae angen llawer mwy. Bydd pob aelod yn derbyn ei gerdyn aelodaeth ym mis Ionawr

Os ydych eisiau'r cyfle o ennill un o'r gwobrau a dynnir am y tro cyntaf yn y Ffug-eisteddfod ar Chwefror 5ed, yna mae angen i chwi ymaelodi cyn diwedd Rhagfyr.

Dyma'r gorchymyn banc unwaith eto:

GORCHYMYN BANC

I Fanc

.....(Enw a chyfeiriad

..... eich banc)

Taler i gyfrif CLWB CEFNOGWYR ECO'R WYDDFA rhif 11072412 ym MANC MIDLAND CYF., Y MAES, CAERNARFON 40-16-02 y swm o £6.00 (CHWE PHUNT) ar 1af Ionawr 1982 ac ar y 1af o Ionawr bob blwyddyn hyd nes y diddymir y gorchymyn hwn mewn ysgrifen.

Tynnwch y taliadau hyn o'm cyfrif banc

Rhif

Liofnod

Enw

Cyfeiriad

Dyddiad

Newydd Sbon! Gweithdy Creffttau




SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLEN Ffôn: Padarn 210


Rhowch anrheg lleol y Nadolig hwn!

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

CYFARCHION NADOLIG O LLANRUG



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



NADOLIG
LLAWEN
A

**BWSIAU ARFON
LLANRUG**
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

BLWYDDYN
NEWYDD
DDA

SNOWDON GARAGE LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056



Atgyweirio MOT Gwasanaeth Torri lawr
24 awr. Teiars. Batris. Exhausts am
brisiau cystadleuol



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi
wrth Stuart, Janet, Nigel, David, Ken a Maldwyn



Mae
Tony, Eleri a Roger

GWESTY'R GLYNTWROG LLANRUG



yn diolch yn fawr i bawb a'u cefnogodd
yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y
gwesty ac yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Dewch i fwynhau gwledd
o ganu Cymraeg bob
nos Wener a nos Sadwrn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SIOP
DRIN GWALLT

ELAINE &
ALWYN
WILLIAMS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2023

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

BERYL a GWEN

LLYTHYRDY
LLANRUG



Ffôn: Caernarfon 2422

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

R&V
JONES

SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4472
PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

ROBERTA
GRIFFITH
BODELWY
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4782
Ffrwythau a Llysiau at
eich drws

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

SIOP a MODURDY GROESLON MARC

LLAN (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

Am bresant Nadolig sy'n para drwy'r
flwyddyn . . .

WINSTANLEY

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF

LLANRUG

FFÔN: CAERNARFON 2122

Y dewis gorau o nwyddau gwella'r
cartref yn y fro

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll.

CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
NEIL, IRIS, TONY, DOT A MARGARET

y Siop Sglodion

**Pontrhythallt
Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n
cyfeillion oll oddi wrth

R. Hughes Jones a'r Mab

SIOP GIG

BRYN AFON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188

Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell



TALBOT

Dewch i weld modelau
newydd Talbot Horizon
1982 – bargeinion
gorau'r
flwyddyn
newydd

JOHN TREVOR

GAREJ HAFOD LLANRUG Ffôn: Caernarfon 3372

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

SETIAU TELEDU LLIW
A MONO
AIL LAW

Hefyd
ATGYWEIRIO

T. CEPAS FFORDD YR ORSAF LLANRUG

Ffôn: Llanberis 205

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

DYMUNA

WIL a MYRA PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG

(Ffôn: Waunfawr 353)

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



Dymuna
DAVID a CAROL
a holl staff

GWESTY'R RHYDDALLT Llanrug

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen
a newydd

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!

Dymuna
holl
Staff

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

Nadolig
Llawen
a

Blwyddyn
Newydd

Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB –
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars,
Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd



FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL
1982

COFIWCH HEFYD –
DIFIDEND o 8c
YN Y BUNT
I
AELODAU'R
GYMDEITHAS

LLANRUG

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Capel Pontrhyallt. Nos Wener, Tachwedd 20, cynhaliwyd Noson Goffi a Byrddau Gwerthu dan nawdd Cymdeithas Chwiorydd Capel Pontrhyallt. Agorwyd y gweithgareddau gan Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am y rhoddion a gafwyd mewn arian a nwyddau ac i'r chwiorydd am eu llafur. Hefyd i'r ardalwyr am eu cefnogaeth i wneud y noson yn llwyddiant.

CROESO ADREF i Mr Mervyn Huws-Roberts, Park Villa ar ôl bod i ffwrdd am bron i 6 mis yn Salalah Oman. Prif beiriannydd teliffon yw Mr Roberts, yn gyfrifol am ddwy gyfnewidfa deliffon i awyrlu'r Sultan.

GWAELEDD – Drwg gennym ddeall bod Mrs Owen, Fferm Glanrafon yn wael ar hyn o bryd ac anfonwn iddi ein cofion a'n dymuniadau da.

CYDYMDEIMLAD – Trist oedd clywed am farwolaeth tad Mr Hefin Jones, Pant Mwyn. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Hefin, Linda a'r teulu yn eu profedigaeth.

arweinai'r gwasanaeth, ac yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd Mrs Mai Davies, Bodawel yn aelod newydd o'r gangen. Wedi'r gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Rheithordy wedi ei ddarparu gan Mrs Mai Davies a Miss Gwennie Griffiths. Mrs D. Gwynfor Williams y Rheithordy oedd yn llywyddu dros y cyfarfod busnes. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Williams, Llys Orwig a bu iddi hefyd ddiolch i'r Rheithor am y gwasanaeth.

GWASANAETHAU'R NADOLIG – Bydd gwasanaethau'r Nadolig fel a ganlyn yn Eglwys Sant Mihangel: nos lau, Rhagfyr 24, 11.30pm. Offeren gynta'r Nadolig; Dydd Nadolig, Rhagfyr 25, 10.30am Cymun Bendigaid. Fe estynnir croeso i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau. Bydd gwasanaeth Carolau'r Plant am 3.30 brynhawn Sul, Rhagfyr 27.

DIOLCH – Dymuna'r rheithor a Mrs Williams ddiolch o galon i bawb am bob cymwynas a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt wedi'r ddamwain a gafodd Mrs Williams yn ddiweddar.

HEB GOLLI DIWRNOD



Plant ysgol gynradd Llanrug yn arddangos eu tystysgrifau presenoldeb llawn.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Rhagfyr 1, bu Mr Geraint Huws Roberts (Park Villa), Bangor, yn sôn am y cyfnod y bu'n gweithio fel athro yn y Swisdir. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Megan Humphreys. Llywydd y noson oedd y Parch W.O. Roberts.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel ddydd lau, Rhagfyr 3. Y rheithor a



Y ddiweddar Florence Blanche Ellis

Y SEINDORF – Bu'r Seindorf yn llwyddiannus yn y Rali yng Nghei Connah ar Dachwedd 28. Daethant yn gyntaf yn y Trydydd Dosbarth.

Ar Ragfyr 5, roeddynt yn croesawu Siôn Corn i Bwllheli. Carai'r Seindorf ddiolch i'r ardal am eu cefnogaeth drwy gydol 1981.

HAFAN ELAN – Nos Fawrth, Tachwedd 17, y gŵr gwadd oedd Mr Richard Roberts, Cwm-y-Glo. Dangosodd sleidiau o Gymru a Lloegr, a hefyd rai o'r Eidal. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb.

Croesawyd ef gan Miss M.I. Rowlands, Cilmeri, a thalwyd y diolchiadau gan Mr C. Williams, rhif 19. Y gwestwagedd oedd Mrs D. Jones (Y Warden) a M.M. Williams, Rhyd.

Nos Lun, Rhagfyr 7, daeth trigolion y stad ynghyd â ffrindiau a pherthnasau i'r ganolfan i ganu carolau. Ein gwŷr gwadd oedd Mr Idwal Roberts a Mrs H.R. Jones, Llanberis. Cyflwynwyd hwy gan Miss M.I. Rowlands, Cilmeri a diolchwyd iddynt gan Mr E. Owen, rhif 9. Cyn troi tuag adref, mwynhawyd swper wedi ei ddarparu gan Mrs D. Jones (y Warden). Diolchwyd iddi gan amryw o'r trigolion.

YN GWELLA – Da deall bod Mrs K. Griffiths, rhif 20 yn parhau i wella ar ôl cael ei chymryd yn wael tra yn treulio ychydig o wyliau yng nghartref ei merch yn Llanberis. Ein cofion a'n dymuniadau da iddi.

DIOLCH – Buom yn ffodus iawn yn cael Owain Eilir a leuan, rhif 18, i addurno y ganolfan i ni erbyn gweithgareddau'r Nadolig. Diolch i chwi hogia am feddwl amdanom.

MARW – Bu farw Miss Florence Blanche Ellis, 10 Rhos Rug yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon ar Ragfyr 2 eleni. Yr oedd yn 79 oed. Gadawodd chwaer yng nghyfraith, Mrs F.M. Ellis a chwe nai, Richard, David, John, Tom, George a Hugh ac amryw o berthnasau eraill. Bu'r angladd ym mynwent yr eglwys, Llanrug y bore Sadwrn dilynol. Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel y Bryngwyn ac ar lan y bedd yng ngofal y Parch W.O. Roberts. Rhoddwyd teyrnged i'w choffadwriaeth gan Mr T.W. Thomas, Berwyn a Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen. Mrs Megan Roberts, Gregynog oedd wrth yr organ. Yn ystod y gwasanaeth canwyd ei hoff emyn, 'Mi glywaf dyner lais'. Mrs Nancy Jones oedd yn gwasanaethu yn y tŷ. Mr Selwyn Morris drefnodd yr angladd. Anfonwyd blodau gan Mrs F.M. Ellis; Richard, Carol, Jackie a Geraint; David a Nesta; John ac Ann a Catherine; Tom a Muriel, George a Mary, Hugh, Katie a Muriel a'r teulu, Eleanor Llundain. Cyflwynwyd y rhoddion ariannol i Gronfa'r Cleifion, Ward Gwyrfa, Bryn Seiont.

Yr ydym wedi colli o'r ardal un o'r cymeriadau anwylaf. Yr oedd pawb yn hoffi Miss Ellis oherwydd ei lledneisrwydd a'i gwyleidd-dra. Yr oedd yn foneddiges wrth natur. Cariodd groes drom ar hyd ei hoes yn

hollol dawel. Dd caredigrwydd a gofal gan yn arbennig gan Staff Pwllheli a Bryn Seiont, Caernarfon. Canwyd emyn er cof amdani yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel y Bryngwyn, nos Sul ar ôl yr angladd. Chwaer dirion lawn daioni – dda ei ffydd

A phawb a pharch iddi:
Gwenau Teg ei henaidd hi,
Addurnodd oes ddi-wyrni.

Glan Rhyddallt.

DIOLCH – Y mae Mrs F.M. Ellis a'r teulu yn dymuno diolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd Miss Ellis yn ystod blynyddoedd o waeledd, a diolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag at y teulu heddiw.

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW**

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..*

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth bawb yn

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd
ar gyfer y Nadolig

**GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG**

FFÔN:
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarlennwyr
Eco'r Wyddfa

Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

**4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG**

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau

Cyfarchion y Tymor i chwi oll!
Ffôn: Caernarfon 4781

OEDOLION

NOFELAU A STORIÂU BYRION

ERYR PENGWERN—Rhiannon Davies Jones. Seilir y nôfel hanesyddol hon yn fras ar 'Canu Heledd', ar y cyfarwyddyd am deulu Cyndrwyn ym Mhowys a'i lys ym Mhgwern ger Amwythig. Pryder dros Gymru a'r iaith Gymraeg a barodd i'r awdur weld delwedd o'n cenedl heddiw yn y cynghreirio a fu ar y gororau â Phenda Fawr o Fersia. Dyma stori ragrol a chyfleir naws lle ac amser yn effeithiol dros ben. £4.95 (clawr caled).

ETIFEDD Y GLYN—Emyr Humphreys, (trosiad W. J. Jones). Stori rymus iawn am ddylanwad un teulu ar fywyd pentref yn cael ei hadrodd gan y mab Philip Elis, Hannah ei chwaer, Ada yr hanner chwaer anghyfreithlon, ac Idris Powel y gweinidog. Symuda'r nofel yn gyflym, yn fyw gan fwrwm a chariad, yr angerdd a'r casineb sy'n ymwau drwyddi. £5.95 (clawr caled).

PAN DDAW'R MACHLUD—Alun Jones. "... fe ddengys y nofel hon ... allu Alun Jones i greu tensiwn a'i gadw'n dynn ... y mae'r awdur yn gwybod beth yw deialog fyrlymus. Uwchlaw pob peth y mae hon yn stori ardderchog." Selyf Roberts, *Y Faner*. "... nofel sy'n mynd i gadarnhau nad rhyw seren unnos o sgwennwr yw Alun Jones ond llenor tra arbennig ... Y mae yma greu cymeriadau gwych iawn ... Arddull drawiadol ...". Glyn Evans, *Y Cymro*. £4.95.



I HELA CNAU—Marion Eames. Nofel hanesyddol yn olrhain hanes cnewyllyn o Gymry ifanc a gefnodd ar dlodi cefngwlad i chwilio am frasach byd ar lannau Mersi yng nghyfnod '60au'r ganrif ddiwethaf. "... werth pob dimai ... nofel y gallaf ei chymeradwyo'n hawdd ...". Jane Edwards, *Barn*. "... mae'n cyfleu naws a meddylfryd y bobl mor gywir ... Cefais fwynhad anghyffredin wrth ddarllen y nofel ...". Mary Ellis, *Y Llan*. £2.50—fersiwn clawr meddal a gyhoeddir ar achlysur darlledu addasiad o'r nofel ar *Radio Cymru* ('Theatr yr Awyr'—darlledwyd y rhaglen gyntaf yn y gyfres ddydd Mawrth, 3 Tachwedd.)


CWLWM GWAED—Irma Chilton.

Casgliad o storïau byrion. Enillodd 'Y Cwlwm Gwaed' wobwr mewn cystadleuaeth genedlaethol a drefnwyd gan Gyngor y Celfyddydau. £1.75.

LLYFRAU NADOLIG



LLANDYSUL, DYFED



TAITH



DYDDIADUR ISRAEL—Nesta Wyn Jones. Dyma gyfle i grwydro Israel, gwlad y Beibl yng nghwmni un a fu yno ar ymweliad ddeufis, i weithio ar gibwts. Y mae yma ddisgrifiadau byw o lawer eglwys a chapel, o'r llecynnau cysegredig, a ffeithiau am y wladwriaeth fodern, ynghyd â chasgliad sylweddol o luniau lliw a du a gwyn i gyfoethogi profiad y darlennydd. £2.95.

ASTUDIAETHAU LLENYDDOL

Y DIWYGIAD MAWR—Derec Llwyd Morgan. Astudiaeth o Fethodistiaeth Gynnar Cymru a geir yn y gyfrol hon, Methodistiaeth y blynyddoedd rhwng tua 1737, pan gyfarfu Howell Harris a Daniel Rowland am y tro cyntaf, a 1790/1, sef diwedd oes Rowland a Williams Pantycelyn. Trafodir gwreiddiau Methodistiaeth, y bobl a'i coledodd, ei seicoleg, ei diwinyddiaeth, ei darfelydd, ei dyheadau ysbrydol a chymdeithasol, a'i meddwl llenyddol. £6.75 (clawr caled).

HAMDDEN

SERYDDA—Aneurin Evans. Llyfryn ar gyfer y dechreuwr yw hwn, wedi'i ysgri-fennu'n drefnus a diddorol, llawlyfr hwylus ar gyfer y sawl sydd am wybod beth i edrych amdano yn yr wybren, a sut a pha bryd i fynd ati. Cynhwysir nifer o luniau trawiadol o'r sêr a'r cytserau mwyaf diddorol. £1.50.



LLYFRAU SAESNEG

HANES

WALES AT WESTMINSTER—Arnold J. Jones a John E. Thomas. Hanes holl etholiadau seneddol Cymru rhwng 1800 a 1970. £9.75 (clawr caled).

THE VOICE OF A NATION?—Rowland Lucas. Hanes y BBC yng Nghymru rhwng 1923 a 1973. £6.75 (clawr caled).

FOUR CHEERS FOR CARMARTHEN—the other side of the coin—Pat Molloy—Chwaer gyfrol i *A Shilling for Carmarthen* yn adrodd rhagor o hanes Caerfyrddin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. £5.95 (clawr caled).

WELSH SHEEP AND THEIR WOOL—

John Williams-Davies. £1.25

FROM FLEECE TO FABRIC—

J. Geraint Jenkins. 95c.

Dwy gyfrol yn ymdrin â gwahanol agweddau ar hanes y diwydiant gwlân yng Nghymru.

HUNANGOFIANT

ABC of (D)GW—Gwyn Williams. Cyfrol anarferol iawn yn croniclo hanes gyrfa, diddordebau a chyflawniadau'r Cymro twymgalon ac anghyffredin hwn o Bort Talbot sy bellach wedi ymgartrefu yn Nhrefenter, Aberystwyth ar ôl teithio'r byd. £6.95 (clawr caled).

NOFELAU

COCKLES IS CONVENIENT—Bette Meyrick. Lleolir y nofel hon yn Llanporth, pentre bach yn ne Sir Benfro, a chartref Evan Evans, Perchennog Siop Ddillad. Ond digon anffodlon ei fyd yw Evan, hynny yw, hyd nes iddo ganfod cyfrinach y cocos ... Un o'r nofelau mwyaf digri a gyhoeddwyd ers tro byd. £4.95 (clawr caled).

STRANGERS ON THE MOUNTAIN—Nina Dolores Santos. Nofel i blant yn eu harddegau, wedi'i lleoli yng Ngwynedd, yn sôn am helyntion Penri a'i chwaer Meinir, a'u rhieni wrth iddynt geisio amddiffyn nythfa adar ysglyfaethus prin. £1.50.



LLYFRAU'R PLANTOS

CYFRES SMOT—Eric Hill

Ble mae Smot?

Smot yn Gweld y Byd

"Llyfrau hwyliog a difyr iawn i'r plant lleiaf sy'n dechrau dysgu darllen . . . Yr hyn sy'n arbennig ynglŷn â'r llyfrau hyn yw y gellir agor y gwahanol ddrysau sydd yn lluniau'r gyfrol a gweld beth sydd yr ochr arall iddynt." Glyn Evans. *Y Cymro*. Cloriau caled a lliw o glawr i glawr. £1.75 yr un.



LLYFRAU WALT DISNEY

Dwy gyfres o lyfrau lliwgar a gwreiddiol eu cynllun yn cyflwyno y cymeriadau hoffus, byd-enwog a grewyd gan Walt Disney.

CYFRES LLYFRAU SBONC

Bambi ar goll

Gwff a'r Mwnci

Mic Llygoden yn Ddyn o'r Gofod

Wini'r Pw heb injan-dân

75c. yr un.

CYFRES LLYFRAU PYPED

Ar Wyliau gyda Wncwl Mici

Ar y Fferm gyda Wncwl Donald

Wini'r Pw a'r Lleidr Pen-blwydd

£1.75 yr un.



CYFRES BYD Y PLANTOS

Fi Fy Hun

Gwnewch Hyn

Gyda'n Gilydd

Rhannu

Llyfrau bwrdd lliwgar iawn i blant 2-4 oed; pob tudalen wedi ei laminateiddio fel y bo'n hawdd i'w sychu'n lân. 75c. yr un.

CYFRES SGWRSIO AM DDARLUN

Agor a Dweud

Agor a Dysgu

Agor a Gweld

Agor ac Edrych

Llyfrau bwrdd eto. Un gair a llun lliwgar ar bob tudalen—anrheg ddelfrydol i blant 1-3 oed. 75c. yr un.



GOMER
LLANDYSUL, DYFED

STORIAU I BLANT

CYFRES NAWR GELLWCH CHI DDARLLEN

Y Dywysoges Hir Ei Chwsg

Y Tri Mochyn Bach

Yr Iâr Fach Goch

Elen Benfelen a'r Tri Arth

Jac a'i Goeden Ffa

Rapynsel

Yr Hwyaen Fach Hyll

Y Crydd a'r Ddau Goblyn

Y Dywysoges a'r Broga

"Cyfres ganmoladwy gyda lluniau trawiadol yn adrodd . . . rhai o'r hen straeon tylwyth teg traddodiadol . . . Fe'u bwriedir ar gyfer plant sy'n dechrau ar eu pennau eu hunain ac y mae'r print yn fras ar eu cyfer. O ystyried y diwyg a'r maint maent yn sobor o rad . . ." Glyn Evans. *Pais*. 95c. yr un.



CYFRES Y MÔR-LADRON—Alun Ifans.

Dyma gyfres ar lun stori gadwyn sy'n cysylltu rhai o fôr-ladron enwocaf Cymru wrth iddynt chwilio am yr un trysor. Y cyfrolau yn y gyfres:

- | | |
|-----------------|-----------------|
| 1. Barti Ddu | 4. Nathaniel |
| 2. Harri Morgan | 5. Ralf Greulon |
| 3. Twm Prys | 95c yr un. |

ACHUB Y DREF—Dylan N. Jones Er bod dŵr yr afon yn codi'n gyflym mae Llŷr, Rhys a Mair yn llwyddo i achub y dref. Nid nhw sy'n cael y clod, ond pwy sy'n poeni a hwythau wedi dod yn ffrindiau ag eliffant a chael cymorth Siôn Corn. Mae'r stori wedi'i darlunio â lluniau doniol-drawiadol gan Glyn Rees. 90c.

COEDEN NADOLIG FACH UNIG

TWM TWM Y DYN EIRA—Morfudd Strange. Dwy stori hyfryd am dymor y Nadolig, wedi'u darlunio'n feistrolgar gan Jac Jones. 75c. yr un.

NADOLIG PLENTYN YNG NGHYMRU—

Dylan Thomas. Stori hudolus am blentyn-dod yr awdur a hanes dydd Nadolig mewn pentre Cymreig. Darluniwyd y gyfrol gan Edward Ardizzone, yr arlunydd byd-enwog. £1.00 (clawr caled).



NOFELAU I BLANT YN EU HARDDEGAU

HWYL A HELYNT CALAN GAEAF—

Gweneth Lilly. Yn America y lleolir y nofel gydag Eirlys yn treulio wythnos Calan Gaeaf gyda'i chefnider Matthew a'i rieni. Digwydd pethau rhyfedd iawn iawn yn y tŷ pren yn Granton. Beth neu pwy sy'n aflonyddu ar y cartref? Daw'r gwirionedd i'r golwg wrth i wythnos Hallowe'en dynnu at ei therfyn, noson y parêd a'r parti. £1.95.

GLAS Y DON—Hugh D. Jones. Gwesty bach dymunol ym mhentref glan-y-môr Glanmor yw Glas y Don. Mae arlunydd yn aros yno a gŵr o Birmingham sy'n dipyn o ddirgelwch. A oes cysylltiad rhyngddynt a'r Saeson sy'n aros mewn carafan ar fferm Gwyndaf a'i rieni? Yn dilyn noson gyffrous ar fôr ac ar dir mae Gwyndaf a'i gefnider Hywel yn ceisio darganfod pwy a fu'n gyfrifol am y digwyddiad erchyll sydd wedi dychryn y pentrefwyr. £1.95.

LOIS—Elizabeth Watkin Jones.

Diweddariad Huw D. Jones o'r nofel hanes ardderchog hon am gyfnod cyffrous y Rhyfel Cartref rhwng gŵr Cromwell a'r Brenhinwyr. Deil y darlennydd ei anadl o bennod i bennod. £1.50.

* * *

DRWS DYCHYMYG—Gol. Elinor Davies.

Blodeugerdd o farddoniaeth i blant. ". . . y gyfrol harddaf ei phryd a'i gwedd i'w chyhoeddi ers tro byd ac y mae'r lluniau gan John Walters yn benigamp ac yn briodas berffaith â'r cerddi." Glyn Evans. *Y Cymro*. ". . . llyfr anrheg amheuthun . . ." *Y Llan*. "Mae'n anrheg ddelfrydol . . ." T. Gwyn Jones, *South Wales Evening Post*. £6.00 (clawr caled).



LLANBERIS

FFAIR NADOLIG – Cafwyd llwyddiant eto eleni gyda'r Ffair Nadolig a drefnwyd gan bwyllgor Clwb yr Henoed. Agorwyd y ffair yn swyddogol gan Mr Stanley Owen, Llanrug, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn. Croesawyd pawb yno gan y Canon Alun Jones, a diolchwyd yn wresog iawn i Mr Stanley Owen am ei gyfraniad i'r achos. Trefnwyd y cyfan gan y pwyllgor a charent ddiolch unwaith eto eleni i'r ardalydd a'r sipwyr lleol am eu cyfraniadau hael. Enillwyd y raffl ydoedd: Mrs G. Williams, Mr Norman Merlin, Susan Kelly, Mr Alun Hughes, Mr E.P. Morris, G.O. Jones, Trevor Roberts, Mrs Mary Owen, Mr W. Allsop, Mrs Wendy Jones, Mr John Morgan, E. Jones, Mrs L.E. Hughes, Mrs McConnell, Mr T.R. Williams, Mrs Enid Jones a Mr Arwyn Roberts.

YN YR YSBYTY – Mae rhai o'r trigolion yn dal yn yr ysbty a dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn. Ym Mangor mae Mrs Lola Owen, Stryd yr Wyddfa, Mrs Margaret Roberts, Tŷ Idan, a Terence Griffith, Llainwen Isaf. Deallwn fod Alwyn, mab Mr a Mrs Evans, Havana, yn gwella ar ôl torri ei goes, Disgybl yng Ngholeg Glynllifon yw Alwyn, ac wrth deithio yno ar ei feic modur cyfarfu â'r ddamwain.

CLWB METHEDIG ERYRI – Daeth cynulliad da ynghyd o'r aelodau un pnawn Llun i anrhegu Mr Ted Thomas, Stryd Tŷ Du ar ei ymdeoliad fel ysgrifennydd y Clwb er ei ddechreuad. Cyflwynwyd waled a phin dur iddo. Hefyd cyflwynwyd tystysgrifau i'r aelodau a fu'n llwyddiannus yn yr arddangosfa yn Llundain, sef Mrs Katie Williams, Mrs Peris Thomas a Mrs Owen.

GWASANAETH IEUENCTID – Y trydydd Sul o'r mis, cynhaliwyd Gwasanaeth i'r Plant a'r Ieuencid yng Nghapel Coch wedi ei drefnu gan y gweinidog – y Parch Marcus Robinson. Y plant a gymerodd ran ydoedd Dylan Parry, Glyn Hughes, Robert Williams, Jacqueline Sellers, Delyth Williams, Ann Evans, Eirian Hughes a Derek Hughes. Rhoddodd y gweinidog araith fer a difyr i'r plant.

Yn y gwasanaeth hwyrol cymerwyd rhan gan Valerie Parry, Delyth Williams, Gareth Hughes a Gareth Parry.

Y GOBEITHLU – Mae pawb yn brysur iawn yn y Gobeithlu ar hyn o bryd. Trefnwyd rhaglen ar gyfer cyfarfod y Nadolig gan y Parchedigion Hugh John Hughes a Marcus Robinson ac mae'r plant i gyd yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth. Cymerwyd y rhannau agoriadol gan Darryl Griffith, Marc Lloyd Williams a Ffiona Prydderch, Delyth Williams a Robert. Cafwyd eitemau o ganu ac adrodd gan Mandy Roberts, Dylan, Nia Thomas, Glyn a Trystan. Annette Sellers, a Sharon Phillips.

NOFIO – Bu Dylan Ellis Thomas, Nia G. Griffith a Jason Roberts yn llwyddiannus yn ennill eu medal bres am nofio. Disgyblion o Ysgol Dolbadarn ydynt.

RAS GERDDED – Unwaith eto bu Gary Ellis yn llwyddiannus yn y Ras Gerdded dros fynnyddoedd Penmaenmawr a'r cylch – (*The Penmaenmawr Fell Race*). Er mai tair milltir oedd y plant yn gerdded gwnaeth Gary y ras mewn 24 o funudau. Da iawn Gary – daliwch ati.

RHEDEG YN YR EIDAL – Trefnodd Mr Ken Jones drip i'r Eidal i aelodau yr 'Eryri Harriers'. Cawsant groeso mawr gan bobl Morbegnu a chyflwynodd Mr Ken Jones ddarlun hardd o Ddyffryn Llanberis i faer y dref ar ran Pwyllgor Ras yr Wyddfa.

Un o'r rhai ieuengaf i redeg yn y ras dros fynnyddoedd yr Eidal oedd Paul

Prydderch, daeth yn 3ydd yn y ras dan 11 oed. Dan 15 oed daeth Garry Ellis yn ail. Diolch i Ken Jones am ei ddiddordeb yn y bechgyn ifanc yma, a gobeithio y pery ei ddiddordeb, a hefyd y caiff gefnogaeth yr ardalydd.

LLONGYFARCHIADAU – Da iawn Bethan, yn ennill ar adrodd yn Gymraeg yn Eisteddfod yr Ysgol, Brynrefail, yn ail am adroddiad Saesneg, a chyntaf am adroddiad dan 18 oed yn Eisteddfod Sant Padarn a Sant Peris.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol, nos Iau, Tachwedd 26, ac etholwyd y rhai canlynol i weithredu fel swyddogion a phwyllgor am y flwyddyn 1982: Llywydd, Mrs Hannah Jones; Is-lywydd, Mrs Beti Humphreys; Ysgrifennydd, Mrs Eluned Mai Jones; Trysorydd, Mrs Glenys Jones; Pwyllgor: Mrs Jan Davies, Mrs Beryl Ellis, Mrs Jean Elis, Mrs Arfon Evans, Mrs Ella Howdle, Mrs Annie B. Jones, Mrs Mair Jones, Mrs Dilys Phillips. Yr oedd yr etholiad o dan ofal Mrs F. Treen, Mrs Mary Land a Mrs Olive Rowlands, Caernarfon.

Yr oeddem yn falch o glywed bod Mrs Martha Hughes wedi dychwelyd o'r ysbty ar ôl cael triniaeth, a dymunwn wellhad buan iddi hi.

Bu rhai o'r aelodau yn Theatr yr Astra yn Llandudno yn gweld cynhyrchiad y Llandudno Musical Players o'r 'King and I', a mwynhawyd y noson yn fawr iawn.

Diolch hefyd i Mrs Glenys Jones a Mrs Beti Jones am roddi torch ar y Gofeb ar ran y Sefydliad ar Sul y Coffa.

EISTEDDFOD

Nos Wener, Rhagfyr 4, cynhaliwyd Eisteddfod Eglwys St Peris a St Padarn. Llywydd y noson oedd Mr Harri Jones, Banc y Midland ac arweiniwyd y cyfarfod gan Mr Cyril Jones. Y beirniad cerdd oedd Mrs Alwen Hughes, Caeathro, gyda Mr Cledwyn Williams, Llanrug, yn beirniadu'r adrodd, a'r Parch Phillip Roderick, Y Felinheli, yn beirniadu'r Arholiadau Llafar.

CANU

Dan 5 oed: 1. Meir, Elaine ac Aneurin. 2. Rheon. 3. Gavin. **Dan 6 oed:** 1. Colin a Gerallt. 2. Phillipe a Robin. **6 oed:** 1. Llinos, 2. Stephen. 3. Shane ac Elwyn. **7 oed:** 1. Nia, 2. Kevin, 3. Lliffon. **10-12 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Cheryl Edwards, 3. Nia Williams a Lynne Parry. **12-14 oed:** 1. Fiona Jones a Catrin Lennon. **Dan 16 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Catrin Lennon a Jane Parry. **Dan 18 oed:** 1. Rhian Owen, 2. Catrin Lennon. **Cân Werin:** 1. Catrin Lennon. **Canu Penillion:** 1. Jane Parry, 2. Catrin Lennon ac Alison Edwards. **Deuawd:** 1. Catrin Lennon a Bethan Jones. **Unawd Piano 10-12 oed:** 1. Alison Edwards a Jane Parry, 2. Lynne Parry, 3. Alice Jones a Nia Williams. **Unawd Piano 12-14 oed:** Catrin Lennon. **Chwarae Tŷn Emyr:** 1. Alison Edwards. **Unawd Offeryn Chwyth:** 1. Bethan Jones.

ADRODD

Dan 5 oed: 1. Gavin, 2. Elaine, 3. Aneurin. **Dan 6 oed:** 1. Gerallt, 2. Colin, 3. Phillipe a Robin. **6 oed:** 1. Dylan, 2. Llinos, 3. Elwyn. **7 oed:** 1. Kevin, 2. Mark, 3. Nia a Lliffon. **10-12 oed:** 1. Lynne Parry, 2. Alison Edwards a Cheryl Edwards. **12-14 oed:** 1. Fiona Jones a Catrin Lennon. **Dan 18 oed:** 1. Bethan Jones. **Darlenn o'r Beibl – 12-14 oed:** 1. Cheryl Edwards ac Ian Edwards, 2. Alison Edwards. **14-16 oed:** 1. Bethan Jones, 2. Fiona Jones, 3. Ian Edwards.

ARHOLIADAU LLAFAR

Dan 5 oed: 1. Colin, 2. Elaine ac Aneurin, 3. Rheon a Phillipe. **6-8 oed:** 1. Llinos, 2. Lliffon, Nia, Kevin, Shane a Mark. 3. Louise, Stephen ac Elwyn. **8-10 oed:** 1. Eifion a Maria. **10-12 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Cheryl Edwards a Robert Anthony Jones. 3. Nia Williams, Andrea Roberts a Darren Price. **12-14 oed:** 1. Carl Lynne Parry, 2. Ian Edwards, 3. Catrin Lennon. **Modulator:** 3 oed: 1. Rheon Wyn Roberts ac Aneurin Foulkes. 4 oed: 1. Elaine Bee. 5 oed: 1. Colin Ellis a Phillipe Bourne. 6 oed: 1. Stephen Edwards a Louise Ellis. 2. Llinos Haf Jones ac Elwyn Foulkes. 7 oed: 1. Nia Wyn Roberts a Lliffon Foulkes, 2. Kevin Edwards a Mark Bourne. 3. Shane Price. 9 oed: 1. Marie Willis, 2. Eifion Griffiths, 3.

Andrew Owen. **10 oed:** 1. Cheryl Edwards, 2. Nia Williams a Ceri Lynne Parry. **11 oed:** 1. Alison Edwards, 2. Andrea Roberts, Robert Anthony Jones a Darren Price. **12 oed:** 1. Catrin Lennon. **13 oed:** 1. David Ian Edwards.

Enillwyd y gwpan am y gwaith gorau yn yr Arholiadau Llafar gan Alison Edwards, a hi hefyd a enillodd y gwpan am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod gyda Catrin Lennon y cael y Fedal am ddod yn ail. Gwnaed medalau yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod gan Mr Christopher Bourne, Mur Mawr, a rhannwyd rhain i rai o'r goreuon yn y cystadlaethau.

ENNILL TYSTYSGRIF – Llongyfarchiadau i Shaun Ffoulkes, 9 Dôl Elidir ar ennill tystysgrif a medal

am ei gynnydd yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. Cyflwynwyd y cyfan iddo gan Mrs W.P. Williams, Prif Athro, Ysgol Treborth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mr John Hugh Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarn. Diolchwyd iddo gan y Parch Marcus Robinson a llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Dilys Bayliss.

DIOLCH – Dymuna y meddygon a staff y clinic, hefyd cefnogwyr y Clinic ddatgan eu diolch i deulu'r diweddar Edwin Phillips, Rallt Goch am y rhodd anrhyddedus o £110 i'r clinic i ddangos eu gwerthfawrogiad o'u caredigrwydd.

RECORDIAU'R NADOLIG

BOB NADOLIG bydd cwmnïau o bob math yn chwyddo'u cynnyrch i gymryd mantais o'r 'Farchnad Nadolig', ac nid yw'r cwmnïau recordio Cymraeg yn eithriad yn hyn o beth. Os ydych yn dal i chwilio am anrhegion neu'n bwriadu defnyddio'r tocynnau recordiau yna y byddwch yn siŵr o'u cael gan rhywun, 'rydw i'n siŵr y dewch ar draws rhywbeth fydd yn plesio yn y siopau ar hyn o bryd.

Un o'r recordiau mwyaf poblogaidd yn yr ardal yma, mae'n siŵr, yw record newydd Rosalind a Myrddin, 'Dau fel Un'. Mae lleisiau swynol y ddau a'r defnydd cywrair o adnoddau stiwdio yn asio i greu sŵn arbennig iawn, ac mae'r record yn siŵr o blesio y rhai hynny ohonoch sy'n hoffi caneuon da, hawdd gwrando arnynt. Mae'r caneuon yma yn gymysgedd diddorol gan gynnwys addasiadau Cymraeg o ddwy o ganeuon ABBA a dwy o ganeuon Neil Sedaka, yn ogystal ag alawon gan Ryan Davies, Arwel Jones a Rosalind a Myrddin eu hunain.

Mae recordiau newydd Geraint Jarman 'Diwrnod i'r Brenin' a Tecwyn Ifan 'Edrych i'r Gorwel' yn y siopau ers rhai wythnosau bellach, ond newydd ei chyhoeddi mae record Plethyn 'Rhown Garreg ar Garreg'. Plethyn oedd prif grŵp gwerin Cymru ym 1980 yn ôl darllenwyr Sgrech – prif gylchgrawn pop Cymru a bydd yn ddiddorol gweld a fyddant yn

ailgyflawni'r gamp am 1981. Ym mis Ionawr y cyhoeddir recordiau hir Rhiannon Tomos a Bando.

Os ydych am record sy'n adlewyrchu naws y Nadolig yna prynwch y record 'Nos Nadolig Yw' – casgliad o garolau wedi eu recordio yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy gan gorau plant Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

CERDD NADOLIG 81

Nadolig wyth deg un y dirwasgiad. Welwch chi giwiau'r dŵl? Ciciwch bawb, a phasiwch y bêl 'Does' na ddiawl o neb yn y gŵl.

Trefnwch i Santa lenwi Hosan y bychan â gemau lladd; Na phoenwch am bechu Gwaredwr y byd Digon o waith caiff O wadd.

Pwyswch fotymau plastig Y gemau rhyfel yn gytŷn A dathlwch yn feddw, Nadolig Electronig wyth deg un

Selwyn Griffith

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH
Teganau

YN SIOP
E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Dymunwn NADOLIG LLAWEN i ddarlennenwyr yr Eco ac edrychwn ymlaen am gyfle i roi BLWYDDYN NEWYDD DDA yn llawn difyrwch i chwi oll

Y mae ein CANOLFAN ADLONANT newydd ar agor gyda lle i 300. Byddwn yn cynnal pob math o nosweithiau adloniant yn cynnwys Dawnsio gyda grwpiau Cymraeg gorau Cymru yn dechrau nos Wener, Ionawr 8, gyda dau o grwpiau poblogaidd iawn - Ficer a Doctor. Ar nos Wener, Ionawr 22, bydd Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr yma i'ch difyrru. Bydd Cabaret ar nos Sadwrn a Disgo ar nos Fercher bob wythnos. Hefyd Cabaret ar nos Sadwrn a Disgo ar nos Fercher bob wythnos. Hefyd grwpiau Cymraeg a nosweithiau 'Country & Western' bob yn ail wythnos

Dyma ein rhaglen adloniant hyd ddiwedd mis Ionawr 1982

Nos Sadwrn 2 Ionawr - Cabaret gyda grŵp Swell a Disgo - tocynnau £1.25

Nos Wener, 8 Ionawr - Ficer a Doctor gyda Disgo'r Llais - tocynnau £2. COFIWCH, dim mynediad ar ôl 9.30pm

Nos Sadwrn, 9 Ionawr - Cabaret gyda grŵp Columbine a Disgo. Tocynnau £1.25

Nos Wener, 15 Ionawr - Noson Ddisgo Arbennig ar gyfer codi arian i ymchwil y clefyd cancr - dewch yn llw i gefnogi'r achos da yma.

Nos Sadwrn, 16 Ionawr - Cabaret gyda grŵp Flooky a disgo. Tocynnau £1.25.

Nos Wener, 22 Ionawr - Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr gyda disgo. Tocynnau £2.50. Agored 7pm. Dim mynediad ar ôl 9.30pm.

Nos Sadwrn, 23 Ionawr - Cabaret gyda Bobby Gold a disgo. Tocynnau £1.25.

Nos Iau, 28 Ionawr - Noson 'Country & Western' gyda Lenjos a disgo. Tocynnau £1.25.

Nos Sadwrn, 30 Ionawr - Cabaret gyda grŵp Citizen's Band a disgo. Tocynnau £1.25

Bydd Disgo bob nos Fercher, 6.30pm. Tocynnau 75c. Y drysau ar agor am 6.30pm. **Bar ar agor yn hwyr. Dim mynediad ar ôl 9.30pm.**

Bydd Cinio Llawn neu Fwyd Basged ar gael bob nos. Cofiwch archebu eich tocynnau ymlaen llaw - ni allwn sicrhau y bydd tocynnau ar gael bob amser wrth y drws. Mae trefniant ar eich cyfer i'ch cludo os bydd ei angen. Y mae gennym ystafell gadw cotiau ddiogel.

Ffoniwch am fanylion ein cyfleusterau i barti mawr neu bach

PENISARWAUN

YSGOL TAN Y COED

Ymweliad: Bnawn Mercher diwethaf ymwelodd 19 o'r plant hynaf â Theatr Gwynedd, lle gwelsant berfformiad adloniannol-addysgol am 'Drydan' gan y *Molecule Theatre*.

Ymadael: Yr wythnos diwethaf ffarweliwyd â Hayley Barton, Safon 3, 'roedd Hayley yn symud i fyw i Landudno, a dymunir yn dda iddi yno.

LLONGYFARCHIADAU i Irfon Hughes, 7 Newydd, Cae Howel, ar ei ddyweddad a Heddwen Jones o Fethel. Mae Heddwen yn wyres i Mrs E.B. Jones, 6 Bryntirion.

EIN DYMUNIADAU DA am ben-blwydd hapus i Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion, ar ei phen-blwydd yn 81 oed. Nid yw Mrs Roberts wedi bod yn dda iawn yn ddiweddad oherwydd anhwylder ar ei llygaid.

EGLWYS ST HELEN - Fe garai wardeiniaid eglwys St Helen ddiolch yn arbennig i'r organyddion a'r rhai a fu yn rhoddi blodeu ar yr allor a'r glanhawyr am eu help yn ystod y flwyddyn. Diolch hefyd i'r Parch Gwynfor Williams, rheithor Llanrug, am ofalu amdano'n bob nos Sul gyda'r gwasanaeth Gosber. Bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid nos Iau, Rhagfyr 24, fel arfer am 11.30 yr hwyr, gyda'r Parch Philip Roderick yn gweinyddu.

YMADAEL - Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Iona Williams, 2 Bryntirion, sydd yn symud i fyw i Gaernarfon, a hefyd i Sandra, ei merch, a'i phriod, sydd yn symud i 4 Dolafon, Cwm y Glo.

SALWCH - Nid yw Mr William Jones,

13 Bryntirion, wedi bod yn dda iawn yn ddiweddad ac mae'n cael triniaeth yn ysbyty Eryri. Gobeithiwn y bydd yn well ar ôl ei driniaeth.

YN GWELLA - Rydym yn falch o glywed bod Iwan Parry, Tawelfa, yn gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Nant Roberts, Arwel, am ei gwaith graenus yn paratoi'r hysbysebion ar gyfer cylchgrawn yr Eglwys yng Nghymru, - 'Cwlwm'.

ANRHYDEDD - Rydym wedi arfer meddwl am Mr Robert Turner, Tyddyn Difyr, fel bardd. Ychydig yn ôl enillodd wobwr mewn cystadleuaeth yng Nghanaada. Wrth gwrs mae Bob wrthi'n brysur yn dysgu Cymraeg, ac mae un o'i gerddi Cymraeg wedi ymddangos yn yr Eco. Mae'n amlwg hefyd fod talent ganddo ym myd drama, oherwydd mae Cwmni Drama Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, wedi dewis drama Saesneg gan Bob i'w pherfformio. Llongyfarchiadau gwresog i Bob.

MARW - Gyda thristwch mawr cofnodwn farwolaeth Mrs Beryl Lynch, Carrog, ger Corwen. Cydymdeimlwn â'r Parch Ifan Lynch, y plant a'r teulu i gyd yn eu galar. 'Roedd Mrs Lynch yn ferch i'r ddiweddad Mrs Barbara Williams, Gwyddfor. Ychydig wythnosau yn ôl cawsom gyfle i groesawu merch a mab-yng-nghyfraith Mrs Lynch i'n plith. Symudodd Mr a Mrs Selwyn Jones i fyw i'r hen gartref, Gwyddfor.

PEN-BLWYDD - Cyfarchion pen-blwydd i Mrs L. Jones, Tai Arthur gynt, oedd yn 90 oed ar Ragfyr 12. Ein dymuniadau gorau iddi.

LLYFRAU I'W BENTHYCA

Gellwch fenthyca unrhyw un o'r llyfrau isod, neu o nifer o rai eraill, o'ch llyfrgell leol neu'r llyfrgell deithiol.

Ar Blât: golygwyd gan Iona Glynn. *Cymdeithas Caernarfon a'r Cylch dros rai araf eu meddwl, 1980. Cyfrol o resipiau o hoff fwydydd rhai Cymry amlwg. Aiff elw'r llyfr hwn tuag at Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch dros rai araf eu meddwl.*

Davies, T.J. - Paul Robeson. *Cofiant o Paul Robeson yw hwn, gyda gwerthfawrogiad o'i ddoniau fel canwr ac actor, a'r ymdrechion a wnaeth i geisio cael yr un driniaeth i bobl dduon ag y caiff y gwynion.*

Goodwin, Geraint - Hyfryd Fore. *Cyfieithiwyd i'r Gymraeg gan Mair Closs Roberts. Nofel wedi'i gwau o gwmpas cymeriadau pentref ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ynndi adroddir eu helyntion a'r troeon trwstan a ddigwydd iddynt, yn ogystal â'r pethau bach sy'n digwydd o ddydd i ddydd.*

Goronwy-Roberts, Marian - W.J. Gruffydd. *Darlith ganmlwyddiant a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'i Chyffiniau eleni. Dangosir ef fel dyn oer a phell i'w ffyrwyr, ond fel person cyfeillgar, â phersonoliaeth lachar a chymhleth.*

Gŵyr wrth Gerdd. *Cyrol i ddathlu pen-blwydd Parti Meibion Menlli yn 25 mlwydd oed. Ynndi cawn ychydig o hanes canu gyda'r tannau, ac amrywiol hanesion am y côr, gan gynnwys eu teithiau a'r troeon digrif a fu.*

Isfoel - Cyfoeth Awen Isfoel. *Gwaith barddonol un o fois y Cilie sydd yn y gyfrol hon. Gwelwn mai bardd cymdeithasol oedd, gan y canai i nifer o ddigwyddiadau - yn ddifrifol, ac yn droeon trwstan.*

Jones, D.G. Merfyn - Blwyddyn y Newyn. *Atgofion ar ffurf dyddiadur, am flwyddyn yn yr India. Cawn hanes profiadau dieithr a helyntion y brodorion a brofasai'r awdur yn ystod ei flwyddyn yn genhadwr mewn lle o'r enw Shaistaganj.*

Jones, Gerallt - Cranogwen : *portread newydd. Portread o un o ferched dawnus a hynod Cymru yn y ganrif ddiwethaf. Ceir disgrifiadau byw ohoni fel morwr, athrawes, bardd, pregethwr, darlithydd, arweinydd dirwest yn ogystal ag fel golygydd 'Y Frythones', y cylchgrawn Cymraeg i ferched.*

Roberts, Enid - Dafydd Llwyd o Fathafarn: *y ddarlith lenyddol Flynnyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'i chyffiniau, 1981. Darlith ar y dyn a ystyriwyd fel proffwyd gan feirdd ei gyfnod, ac a ganai i ddigwyddiadau cyfoes.*

Williams, A Tudno - E.T. Davies, *arloeswr cerdd. Cyfrol yw hon sy'n rhoi amlinelliad o fywyd cyfansoddwr y gân 'Ynys y Plant', ynghyd ag ymdriniaeth o'i waith fel cerddor yn ei wahanol feysydd, e.e. cyfarwyddwr cerdd, arweinydd cymanfaoedd, beirniad, a chyfansoddwr.*

DIOLCH

Dymuna Beth L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn a Linda Williams, Glanrafon, Llanrug ddiolch i bawb am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniasant ar eu pen-blwydd yn 18 oed.

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD 1981 - Cafwyd Eisteddfod dda iawn eleni yn yr ysgol ac ar ôl cystadlu brwd rhwng y 4 tŷ dyma'r canlyniadau terfynol: Eilian, 264; Gwyrfa, 212; Elidir, 201; Eryri, 192.

Llywydd y dydd oedd Maureen Rhys yr actores enwog. Uchafbwynt y noson oedd cystadleuaeth y gadair. Gwyneth Davies o dŷ Elidir ddaeth yn gyntaf, gyda Janice Price yn ail, Ruth Lennon yn drydydd ac Eleri Ellis a Meirion Jones yn gyfartal bedwerydd.

Diolch i bawb fu'n gyfrifol am wneud yr Eisteddfod mor llwyddiannus eleni eto; yn enwedig i ddisgyblion y 6ed dosbarth, fu'n rhoi cymaint o'u hamser i ddysgu'r plant ieuengaf.

SGŌ - Ar ddechrau'r mis aeth aelodau o'r tîm sgŌ i'r Alban i gystadlu ym Mhencampwriaeth SgŌ Ysgolion Prydain.

Timau o'r Alban oedd yn y safle cyntaf, ond daeth tîm A yr Ysgol yn bumed. Mae hyn yn eu gwneud y tîm gorau yng ngweddill Prydain felly - camp go dda i ysgol mor fechan! Safle tîm B yr ysgol oedd 29ain.

Cafwyd £100 tuag at y fenter gan Gyngor SgŌ Cymru. Diolch i'r Cyngor am eu caredigrwydd ac hefyd i Mrs McCann a Mrs Shaw am fynd â'r plant i fyny i'r Alban.

Dyma dimau'r ysgol - Tim A - Christopher Lloyd, Timothy Lloyd, Robina McCann, Kirsty McCann. Tîm B - Margaret Roberts, Keith Parry, Matthew Ingle, Brian Glass (Eilydd Andrew Shaw).

Daeth Tim Lloyd yn 8ed a Chris Lloyd yn 15ed yn y gystadleuaeth unigol, a Robina McCann yn 8ed ymhlith y genethod.

THEATR BARA CAWS - Ar ddechrau'r mis cafwyd perfformiad hynod o lwyddiannus gan y cwmni yn yr ysgol, ac yr oedd y dosbarthiadau isaf wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

PARTI NADOLIG YSGOL PENDALAR - Eleni eto cafodd plant Pendalar barti Nadolig gan y chweched dosbarth. Hoffai'r 6ed dosbarth ddiolch i Mr Fleming a Mrs Lloyd am eu cynorthwyo gyda'r trefniadau. Y maent hefyd yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd i'w nodd i godi'r arian tuag at y parti. Diolch hefyd i Owain Griffiths am fod yn Siôn Corn mor annwyl eleni eto.

ARDDANGOSFA CACENNAU NADOLIG - Yr wythnos yma cafwyd arddangosfa ardderchog o gacennau Nadolig yn ystafell Mrs C. Lloyd. Yr oedd genethod a bechgyn dosbarthiadau 2 i 6 wedi cyfrannu tuag at yr ysblander.

NID OES gwirionedd yn y ffaith fod Mr Wyn Hughes yr Athro Gwaith Coed, wedi **cysgu** trwy'r prynhawn y diwrnod yma; na chwaith yn y ffaith fod **pedair o'r cacennau** wedi mynd ar goll!



CREFFTWR Y GADAIR - Yng nghanol holl firi'r eisteddfod a'r Seremoni Gadeirio ychydig fydd yn sylwi ar grefftwaith arbennig y gadair mae'r buddugwr yn ei dderbyn.

Mr Wyn Hughes yr athro gwaith coed yn yr ysgol sydd yn gyfrifol am hon. Yn wir, ers iddo ddechrau yn yr ysgol 6 blynedd yn ôl mae Mr Hughes wedi gwneud 8 cadair i Eisteddfod yr Ysgol ac Eisteddfod Pentref Llanrug. Gwelir Mr Hughes yn rhoi'r sgleini ar y gadair yn y llun isod. (Mae'n weddol fain ac effro yma - heb gael y cacennau Nadolig pan dynnwyd y llun hwn.)

PÊL-DROED - Ysgol Segontium oddi cartref. Y flwyddyn gyntaf yn ennill 6-2; Ail flwyddyn, cyfartal, 3-3. Ysgol David Hughes gartref. Y flwyddyn gyntaf, ennill 4-2; Ail flwyddyn, ennill 3-1; trydedd flwyddyn, ennill 10-2; pedwaredd flwyddyn, cyfartal 3-3.

Fe chwaraeodd Malcolm Allen a Steven Owen i dîm Ysgolion Gogledd Cymru yn erbyn y De. Colli wnaeth y Gogledd o 3 gôl i ddim.

NOFIO - Bu Benjamin Shaw o Ddeiniolen yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yng Nghaerfyrddin. Benjamin yw'r disgybl cyntaf erioed o'r ysgol i nofio dros Wynedd. Daeth yn seithfed yn y ras pili pala.



Capteiniaid Eilian, y tŷ buddugol, Rhian Owen ac Aled Jones.



Gwyn Meirion Roberts a Lesley Williams, enillwyr cwpan offerynnau heblaw'r piano.



Enillwyr y mwyaf o farciau Rhian Owen (dros 15) a Bethan Jones (dan 15).

MOTOBEICWYR PADARN

Dyma'r rhai o fro'r Eco a enillodd wobrau.

Medal am gystadlu: John Arwel Thomas, Marcus Griffiths, John E. Griffiths, Geraint Jones, Martin Owen, Dewi Wyn Jones, Mark Owen (i gyd o Fethel), Henry Jones, Derek Jones, Martin Williams a Neil Bissette (Llanrug), Dylan Wyn Jones, Darren Parry, Susan Meryl Jones, Dewi Wyn Jones, Owen Wyn Jones, Gwynedd Jones, Meirion Wyn Jones (Deiniolen).

Pencampwriaeth y Clwb:
Adranau - Dosbarth Dechreuwr dan 8 oed: 1. Marcus Griffiths, 2. Arwel Thomas. **Dosbarth Automatic dan 10 oed:** 1. Henry Jones, 2. Dylan Wyn Jones, 3. Darren Parry. **Dosbarth Cadet dan 10 oed:** 1. Geraint Wyn Jones, 2. Martin Owen, 3. John E. Griffiths. **Dosbarth Iau dan 13:** 1. Dewi Wyn

Jones, 3. Neil Bissette. **Dosbarth Hŷn dan 17:** 1. Derek Jones, 2. Mark Owen, 3. Dewi Wyn Jones. **Dosbarth Agored Oedolion dros 17:** 1. Owen Wyn Jones, 3. Meirion Wyn Jones.

Roedd y cyntaf ym mhob un o'r chwech adran uchod yn derbyn gwobr ychwanegol fel enillwyr parhaol. Enillodd J.E. Griffiths (Automatic), Susan Meryl Jones (Cadet) a Martin Williams (Hŷn) wobrau ychwanegol (trydydd neu'n is mewn cystadlaethau). **Tariannau Treialon.** Martin Owen (Dosbarth dan 12 oed) a Dewi Wyn Jones (Dosbarth dan 17 oed).

Gwobr i enillydd ras olaf y tymor: John Arwel Thomas (Dechreuwr), Henry Jones (Automatic), Geraint Jones (Cadet), Dewi Wyn Jones (Iau), Derek Jones (Hŷn), Owen Wyn Jones (Agored i Oedolion).

Tariannau Arbennig: Henry Jones (y nifer mwyaf o bwyntiau ac heb golli ras), Dewi Wyn Jones (motobeiciwr hynod o fedrus) a Susan Meryl Jones (eto'n fedrus iawn a'r unig ferch sy'n aelod o'r clwb).

EISTEDDFOD AM DDIM

Pa dri disgybl o Ysgolion Uwchradd Cymru fydd yn cael wythnos am ddim yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Abertawe ym mis Awst 1982? Ni wŷr neb eu henwau eto, ond y rhain fydd y tîm buddugol mewn cystadleuaeth newydd sbon, sef cwis i ddosbarthiadau 5 a 6 yn yr ysgolion uwchradd ar ddiwylliant Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ac nid dim ond wythnos rad yn yr Eisteddfod i'r tîm llwyddiannus a gynigir, ond hefyd tocyn llyfr £10 yr un i aelodau'r ail dîm, a chyda chydweithrediad y BBC, cyfle i ymddangos ar y teledu neu i'w clywed eu hunain ar y radio i bob tîm fydd yn cystadlu.

Ceir manylion y gystadleuaeth, a drefnir yn null y rhaglen radio 'Top of the Form' yn Rhestr Testunau Eisteddfod Abertawe, neu o'r Swyddfa (rhif ffôn Abertawe 467303).

Dyddiad olaf derbyn enwau timau i gystadlu yw Ionawr 31, felly wedi gorffen eich cinio Nadolig, ewch ati fel miloedd o rai eraill i feddwl am wyliau'r Haf - gan obeithio y byddwch chi'n un o'r tri lwcus fydd yn cael wythnos yn yr Eisteddfod am ddim.

AR Y TELEDU

Yn y rhaglen 'Nadolig Llawn' a ddarlledir ar HTV Cymru am 3.30 p.m. ddydd Sul, Rhagfyr 20 bydd plant ysgol Pendalar Caernarfon yn cyflwyno eu dehongliad arbennig hwy o stori'r geni. Wrth law i roi cymorth i'r actorion ifainc i greu awyrgylch bydd y delynores Elinor Bennett Wigley.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

**CABS
PADARN**

FFÔN: PADARN 347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter : Hur Contract

Dymuna Dafydd a Myra Price, 83 Maes Padarn, Llanberis
a'r holl yrrwyr

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Cofiwch y Nadolig hwn:

CAR AC YFED - COLLI TRWYDDED
CABIAU NI - HWYL A SBRI!

PWY YW SANTA CLAUS?

Mae chwedl fodern Sion Corn neu Santa Claus – yn cyrraedd mewn car llusg sy'n cael ei dynnu gan geirw'n hedfan; yn disgyn i lawr y corn simnai gyda'i anrhegion a'i sirioldeb gwrithgoch – wedi ei chreu'n gyfan gwbl bron gan yr Athro Clement Clarke Moore o Efrog Newydd, pan gyhoeddodd yn 1823, ddarn barddoniaeth o'r enw 'Ywemiad Sant Nicholas'. Roedd dau arlunydd arall yn gyfrifol am gynnal y syniad modern hwn o Santa Claus – Thomas Nast, a roes ddillad cynnes yr Arctig iddo, a'i alw'n 'Santa Claus' yn ôl ffasiwn yr Amerianwyr a hanai o'r Iseldiroedd, ac Almaenwr o'r enw Moritz von Schwind a roes ddillad coch ac ymyl wen iddo.

'Roedd Sant Nicholas yn un o'r seintiau mwyaf poblogaidd yn Ewrop, ac yn bwysig iawn yn yr Iseldiroedd dros gyfnod y Nadolig. Ond nid oedd yn y traddodiadau cysylltiedig â Sant Nicholas unrhyw sylw'n cael ei roi i gar llusg a cheirw'n hedfan, nac i'r ffaith ei fod yn dod i mewn drwy'r simnai. O ble tybed y daeth y syniadau hyn?

Bellach, mae lle i gredu i rai o'r traddodiadau hyn ddod o bellafodd Siberia, a'u bod yn ymestyn yn ôl mewn hanes i ddiwedd yr Oes Iâ ddiwethaf. Yma, yng ngogledd Siberia roedd llwythau'r Koryak, y Chuckchee a'r Kamchadel yn byw, ac y mae eu traddodiadau a'u dulliau o fyw yn ymestyn yn ôl am ganrifoedd. Nid oes nac eglwys nac offeiriad yn perthyn iddynt, ond y maent yn dathlu gŵyl canol y gaeaf, ac y mae ganddynt eu dynion hysbys a elwir yn shaman. Y shaman sy'n gyfrifol am les ysbrydol y llwyth, ac y mae'n feistr ar dri byd – Nefoedd, Daeac ac Uffern. Mewn llesmair gall y shaman ymweld â'r byd tanddaearol i orchfygu ysbrydion aflan afiechyd neu gall hedfan i'r goruwchfyd i ymgynghori â'r duwiau.

Pobl y ceirw oedd y llwythau hyn; yn dibynnu arnynt am eu bywoliaeth. Nid syndod felly fod ceirw yn chwarae rhan amlwg yn eu crefydd llwythol a'u mythau. Er mwyn cyrraedd y stad lesmeiriol byddai'r shaman yn bwyta madarach meddwol o'r enw 'fly agaric'. 'Roedd y cyffur gwenwynig yn y madarch hwn yn achosi gweledigaethau neu ddrychiolaethau, ac yn achosi i'r bwytawr gael y teimlad ei fod yn hedfan – fel pe bai un rhan ohono wedi gadael y corff. Roedd y ceirw hefyd yn hoff o'r madarch hyn, ac yn ei fwyta nes disgyn mewn llewyg. Pe cai'r carw ei ladd a'i fwyta, roedd effaith y cyffur yn parhau'n y cig. Nid rhyfedd felly i'r llwythau cyntefig hyn gredu fod rhyw allu ysbrydol arbennig yn perthyn i'r carw.

Hawdd credu felly, fod yma sail gadarn i'r goel o Dad Nadolig a'i dîm

o geirw'n hedfan. 'Roedd y shaman a'r ceirw yn hoff o'r madarch hud. 'Roedd y cyffur o'r madarch yn rhoi'r teimlad o hedfan i'r bwytawr. Y shaman oedd yn gyfrifol am ŵyl canol y gaeaf (tua'r Nadolig). Ai'r shaman felly oedd y Tad Nadolig diweddarach – yn 'hedfan' gyda'i geirw? Diddorol sylwi hefyd mai lliw gwisg y Tad Nadolig oedd coch, gydag ymyl wen iddi – yr un lliw yn union â'r madarch 'fly agaric'.

Mae un nodwedd arall ynglŷn â bywyd y llwythau hyn o Siberia. Yn y gaeaf, maent yn byw mewn 'yurt', sef twll mawr yn y ddaear wedi ei orchuddio â tho o goed bedw. Mae'r tân yn cael ei osod ar ganol y llawr, ac y mae'r twll i'r mwg yn union uwchben. Y twll mwg hwn yw drws yr yurt hefyd. Pam y daw'r Tad Nadolig i lawr y simnai? Efallai oherwydd mai'r un yw'r simnai a'r drws yn ei wlad ef. Dylid nodi hefyd yn y cyswllt hwn, fod y planhigyn 'fly agaric' yn cael ei gyfrif yn symbol y glanhawyr simneiau mewn ambell wlad yn Nwyrain Ewrop.

Ac yn olaf, pam y mae'r Tad Nadolig yn cael ei ystyried fel rhoddwr anrhegion? Yn Siberia, byddai'r shaman yn anfon negeseuon i'r duwiau trwy'r twll mwg, ac yna yn 'hedfan' allan ar eu hól. Os byddai ateb neu neges gan y duwiau, yna trwy'r twll mwg y deuent; hynny yw, byddai 'anrhegion' neu 'ffafrau' y duwiau yn cael eu cario i mewn i'r yurt drwy'r simnai. A'r shaman fyddai'n eu hebrwng. Ai hwn, felly oedd y Tad Nadolig yn dod ag anrhegion i lawr y simnai?

Ond sut, tybed, y daeth y credoau a'r traddodiadau hyn i gael eu cysylltu â gŵyl orllewinol y Nadolig? Ni ddathlwyd gŵyl y Nadolig fel dydd geni Crist hyd y bedwaredd ganrif, ond yr oedd traddodiad o ŵyl i ddathlu marw'r hen flwyddyn a geni'r newydd yn bod ymhell cyn hynny – y 'Saturnalia' yn neheudir Ewrop a'r 'Yule' yng ngogledd Ewrop. 'Roedd y ddau draddodiad yn debyg iawn mewn llawer modd, ond yn un y gogledd, credid fod 'ysbrydion y nos' yn crwydro o

gwmpas ar y cyfnod hwn a'u bod yn aml iawn yn gweithredu'n groes i'w natur arferol. Yn Sgandinafia, er enghraifft, 'roedd ysbryd o'r enw 'Julebuk' yn ymddangos gan wisgo ei fwgwd diawledig a chyrn; ond ar yr un pryd, yn cario anrhegion i'r plant! Atgof yw hyn o rôl y shaman yn yr hen gymdeithas – gallai ymgorffori'r diafol ei hun, ond 'roedd yr un mor bosibl iddo ddod â ffafrau oddi wrth y duwiau.

Gwaith yr eglwys Gristnogol oedd troi'r 'ysbrydion' drwg hyn yn gymeriadau digrif-ddiniwed er mwyn ceisio cael gwared â'r ystyron paganaidd a berthynai iddynt. Ond anodd iawn oedd lladd hen draddodiadau a pharhaodd yr arferion paganaidd am ganrifoedd, ac y mae rhai ohonynt yn aros hyd heddiw.

Efallai na ellir profi i sicrwydd y cysylltiad rhwng Santa Claus yr Athro Morre a'r shaman o Siberia, ond arwyddocaol iawn yw'r ffaith i draddodiad 'newydd' y Sion Corn gael ei ail-eni yn America; yr union wlad a boblogwyd gan Indiaid Cochion filoedd o flynyddoedd ynghynt – ac i'r rheini ddod yno o Siberia, gan groesi i Alaska. Tybed a oedd traddodiad tebyg yn perthyn iddynt hwythau hefyd?

P'run bynnag am hynny, priodol iawn yw'r ffaith mai atgof o'r shaman sy'n rhan mor annatod o'n traddodiad Nadoligaidd ni heddiw. Y shaman oedd arweinydd gŵyl canol y gaeaf; yr ŵyl a nodai'r newid hudol rhwng yr hen a'r newydd; rhwng amser anghofio problemau'r gorffennol ac edrych ymlaen yn ffyddiog am ffafrau'r dyfodol. Ac efallai'n wir mai'r hen Santa gwrithgoch a'i anrhegion oedd yn nodi'r ffydd hwn mewn dyfodol gwell.

HYWEL A BLODWEN?



Sian Gibson a Rhian Owen, buddugwyr ar y ddeuawd "Mab a Merch".

Bethel

MERCHED Y WAWR – Er gwaethaf y tywydd mentrodd aelodau'r gangen am ginio Nadolig i Westy'r Glynllifon, Marianglas. Ar ôl y bwyd, trefnwyd adloniant gan aelodau'r gangen a chafwyd amser difyr iawn yn canu carolau a gwylio tair sgets. Bu'r aelodau'n ffodus iawn i weld unwaith eto gân ysgafn fuddugol o'r Eisteddfod. Cymerwyd rhan yn yr adloniant gan Mrs Mair Price, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Ann Hopcyn Evans, Mrs Rita Williams, Mrs M.G. Williams, Mrs Ceinwen Williams, Mrs Alys Jones, Mrs Beti Owen, Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Nan Owen a Mrs Elizabeth Evans.

GENI – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Peters, Cremlyn, ar enedigaeth mab bychan, brawd i Richard.

YR URDD – Eleni eto bydd y gangen yn trefnu i fynd i Fangor i weld Pantomeim Theatr Cymru ar nos Wener, Ionawr 15, 1982. Archebwyd 100 o seddau ymlaen yn y Theatr ac felly enwau a thâl o £1.50 i blant, mor fuan ag sydd bosibl i Mrs Fanny Owen. Bydd y gangen fel arfer yn talu am y bws.

REIDIO BEIC NODDEDIG – Ar Fedi 6, bu Kevin Evans, Hedd Davies, Elfyn Green, Harry, Delyth, Sheila Roberts i gyd o Fethel, a Kevin Robinson o Dregarth a Peter Law o Lanrug yn reidio beiciau o Fethel i Gaergybi, pellter o 50 milltir i godi arian i Ysgol Pendalar. Ar Dachwedd 25, cyflwynwyd siec am £328 i Mrs Catherine Jones y Brifathrawes.

CYDYMDEIMLO – Mae'r ardal i gyd yn estyn ei chydymdeimlad â Mrs Fanny Owen, Bryn Teg, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Mr W. Owen, ar Dachwedd 26, yn ysbty Bryn Seiont, Caernarfon.

CARNIFAL – Mewn cyfarfod o bwyllgor y carnifal yn ddiweddar, penderfynwyd rhannu elw'r carnifal fel a ganlyn: Y Neuadd: £125; St John's: £30; Yr Urdd: £30; Yr Ysgol Feithrin: £30; Yr Ysgol: £20; Côr Cadnant: £20; Clwb Bro Bethel: £20; Tîm Pêl-droed: £25; Yr Eisteddfod: £20; Dawnsywyr Morys: £20.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd, nos Lun, Ionawr 18. Erfynnir yn daer am gefnogaeth dda.

LLONGYFARCHIADAU – I Jaqueline Bailey, Anthorne, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ragfyr 19.

Canlyniadau Eisteddfod – tud 19

AR WERTH

Beic Bachgen, rhwng 6 a 7 oed; beic merch, rhwng 6 a 10 oed; beic merch, o 3 i fyny; racer i fachgen rhwng 10 a 13 oed.

Ymholiadau:
Y Felinheli 670861

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



Beth glywir o
**LWYNCOED
CWM-Y-GLO?**
Ffôn: Llanberis 563

Na, nid tylluanod ond...

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN A SYLVIA WILLIAMS

i gwsmeriaid hen a newydd.


Diolch am eich cefnogaeth gydol 1980



POSAU'R

Casgliad o amrywiol bosau (hawdd ac anodd) i blant (hen ac ifanc) gan Dyfrin y Dewin.

Dim ond dwy o'r plu eira hyn sy'n union yr un fath. Pa ddwy?



T	M	U	Dd	U	Ll	W	N
A	R	A	W	N	E	E	G
L	M	A	Th	U	F	O	U
I	E	I	D	O	E	L	S
E	D	D	E	W	L	Ll	Dd
S	N	O	I	D	Y	W	G
I	O	N	L	W	S	B	Ch
N	U	Rh	P	G	I	M	A


Mae'r enwau canlynol wedi eu cuddio yn y sgwâr, pob un a chysylltiad â hen chwedloniaeth. Maent i'w darllen ar draws, yn groes, ymlaen, yn ôl i fyny neu i lawr. Ar ôl darganfod y 15 enw, mae naw llythyren yn aros. Gosodwch y naw gyda'i gilydd i roi enw 'merch annaturiol' sydd hefyd yn rhan o hen chwedloniaeth Cymru.

Taliesin, Arawn, Matholwch, Gwydion, Llefelys, Lludd, Math, Pwyll, Lleu, Goewin, Dôn, Eidoel, Rhun, Sugn, Amig.




CROESAIR Y PLANT BACH

Dyma rai o anrhegion Nadolig plentyn bach Dyfrin. Ceisiwch roi'r enwau cywir yn y croesair. Yna, lliwiwch y gwahanol anrhegion.




t			

CYFRI'R TRIONGLAU



Coeliwch neu beidio, ond mae dros 20 o drionglau yn y diagram hwn. Sawl triongl fedrwyd chi eu cyfrif?



NADOLIG





TORRI'R PWDIN

Mae angen torri'r Pwdin Nadolig yn unarddeg darn, gan ofalu fod un ffrwyth ymhob darn. Ond – dim ond **pedair** gwaith y mae hawl torri'r pwdin. Sut?

AFAL "ENW-OG"!

Mae enwau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig wedi eu cuddio yn yr afal. Dilynwch y llinellau i gael yr atebion.



RHANNU'R GANNWYLL




Mae'r gannwyll wedi ei rhannu'n bump o ddarnau o wahanol faint. Pe bai holl ddarnau'r gannwyll yn cael eu torri, mae'n bosibl eu ffitio i mewn i'r canhwylbren. Fedrwch chi wneud hynny?

SEREN BETHLEHEM

Gan ddefnyddio 18 o fatsus, gellwch ffurfio'r seren hon. Mae 8 o drionglau yn y seren – dau fawr yn croesi ei gilydd, a chwech o rai llai. Eich problem chwi yw symud dwy fatsen yn unig, a gadael dim ond chwech triongl ar ôl. Sut?

ALLWEDDI SION CORN

Mae Sion Corn bob amser yn cario dwy allwedd i'w ffatri deganau. Pa ddwy ydynt?




ATEBION

– ac ychwaneg o bosau ar y dudalen gefn

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda

O EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



Holl enillwyr (unigol) y cystadlaethau llwyfan.

CLOD I'N CANTORION

Testun o lawenydd i ni ym mro'r Eco yw'r cynnydd yn nifer y corau neu bartion canu yn y cylch. Mae corau fel Lleisiau'r Gweunydd, Clychau'r Grug, Côr Bethel a theuluoedd dawnus fel Tŷ'r Ysgol, Dinorwig yn sicr o fod yn brysur dros yr Ŵyl yn cynnal nosweithiau, ac yn helpu pobl y fro i ddatlu Gŵyl y Geni.

Hwyrach y caiff un o'r bartion uchod eu canmol gan un o'n beirdd fel y cafodd un arall o gorau'r fro, Parti Eryri, eu canmol yn yr englynion isdo gan y Parchedig R. Williams, Bangor, ar ôl eu perfformiad mewn cyngerdd dan nawdd

Cymdeithas Gymraeg, Bangor, noson Calan Gaeaf 1981:

Er oered yw Eryri, y gwir yw
'Roedd gwres gan y parti;
A braf yn wir o'i brofi
Fu nos o Hydref i ni.

Cynnes a fu y canu, ac urddas
Hen gerddi y Cymry;
Bu'n wledd o orfoleddu,
Moliant yn fwyniant a fu.

Hardded oedd ffrogiau gwyrddion y
genod

Wrth ganu mor dirion;
Bydd mwynhau eu lleisiau llon
Yn ias o gofio'r noson.

Hyfryd yw bod o ddifri, a melys
Yw gwamalu'n harti;
A gwir yn tra ragori,
'Roedd un awr o'r ddau i ni.


Y Parch R. Williams, Bangor.

FFUG-EISTEDDFOD BRO'R ECO

Byth ers cyhoeddi'r rhestr testunau yn y rhifyn diwethaf dywed Draenog wrthym fod pentrefi'r fro yn fwrwm gwyllt o weithgaredd eisteddfodawl. Pobl yn ymarfer chwibannu ar y stryd, pobl yn aros i mewn gyda'r nosau i ddyfeisio offerynnau, trŵps (!) balé yn llogi neuaddau i ymarfer a'r beirdd a'r llenorion yn limrigo, parodio a chocosa ffwl pelt.

Anfonwch eich cynigion barddonllyd a llethol mewn amlen i Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo erbyn Ionawr 17. Cofiwch roi eich enw priodol, cyfeiriad a thestun y gystadleuaeth mewn amlen dan sêl efo'ch ymgais.

Rydym yn diolch i'r canlynol am gytuno i fod yn gysylltwyr yn y gwahanol bentrefi. **Bethel** - Ann Hopcyn, Gorffwysfa. **Brynrefail a Chwm-y-glo** - Dafydd Price, Tŷ Capel, Cwm. **Llanberis** - Y Parch Marcus Robinson, Bron-y-Graig. **Llanrug** - Owena L. Parry, 1 Tai Tan-y-coed. **Deiniolen a Dinorwig** - Gwyn Parry, Bro Dawel, Deiniolen. **Penisarwaun** - Phyllis Ellis, Rhos Fair. **Waunfawr a Betws Garmon** - Norman Williams, Llidiart Wen, Waunfawr. Gadewch iddynt wybod os ydych am gystadlu ar y llwyfan.



Ysgol Foduro Arfon




Hyfforddwr Profiadol
Gwasanaeth o Ddrws i
Ddrws.

Pris Rhesymol

Taccis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Caernarfon 76105

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH MODURDY MENAI



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**
Ffôn: Portdinorwic 670882
Perchennog: J. Evans

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ABERTAWE A'R CYLCH

Gorffennaf 31-7 Awst 1982

COFIO 1282

I Eisteddfod Aberteifi 1976 y rhoddwyd y teitl 'Eisteddfod y Dathlu' gan i'n Gŵyl Genedlaethol ymweld â'r dref wyth canrif wedi'r Eisteddfod hanesyddol honno a gynhaliwyd o dan nawdd yr Arglwydd Rhys yn y flwyddyn 1176. Ond mae gan Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch hefyd hawl i'r teitl 'Eisteddfod y Dathlu' yn sgîl y cysylltiad rhwng blwyddyn yr Ŵyl - 1982 - a blwyddyn marw ein Llyw Olaf, Llywelyn ap Gruffudd, 1782.

Yn addas iawn felly dewiswyd Cilmeri, y fan lle lladdwyd y Tywysog Llywelyn, yn destun yr Awdl, testun â chysylltiadau dwys a chyfoethog sy'n siŵr o ysbrydoli ein beirdd caeth.

Dewisodd yr Eisteddfod goffau'r saithcanmlwyddiant ymhellach drwy drefnu arddangosfa hanesyddol ar Lywelyn a chyfnod y Tywysogion Cymreig. Trefnir yr arddangosfa gan yr Athro Glanmor Williams ac fe'i cynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Y DYSGWYR

Gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg edrych ymlaen at raglen lawn ac amrywiol ym Mhabell y Dysgwyr ar faes yr Eisteddfod. Mae dwy ffilm yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, ffilmiau â sylwebaeth wedi ei llunio yn arbennig ar gyfer Dysgwyr; y naill gan yr Uned Iaith Genedlaethol ym Mhontypridd yn rhoi cipolwg ar ddinas Abertawe, a'r llall gan Athrofa Addysg Uwch Gorllewin Morgannwg yn portreadu ac yn dilyn hynt rhai o ddysgwyr y cylch. Bwriedir dangos y ffilmiau yn rheolaidd ym Mhabell y Dysgwyr yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Trefnwyd hefyd nifer o gystadlaethau cyfansoddi i Ddysgwyr ynghyd â chystadlaethau Adrodd a Cherdd

Dant. Geilw un gystadleuaeth am sgript sefyllfa ddigrif, a gwahoddir Parti o Ddysgwyr i berfformio'r cyflwyniad buddugol yn Theatr Fach y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

CYMORTH I BARTION

Gwneir ymdrech arbennig i gynorthwyo'r rhai hynny a fydd yn trefnu tripiâu bws i Abertawe drwy gynnig iddynt docynnau pafiliwn rhad ar sail y nifer a fydd yn y parti. Rhoddir 1 sedd rad i bartion 12-25, 2 sedd i bartion 26-39 a 3 sedd i bartion 39 a throsodd. Ceir manylion pellach am hyn o Swyddfa'r Eisteddfod.

CELF A CHREFFT

Gan fod Dylan Thomas yn ffigwr llenyddol a'i gysylltiadau ag Abertawe yn rhai mor agos a phersonol, dewiswyd un ar ddeg o ddyfyniadau o'i farddoniaeth a'i ryddiaith yn sail i'r cystadlaethau ar gyfer Ysgolion a leuenctid yn yr Adran Gelf a Chrefft. Trefnwyd pedair cystadlaeth sy'n ymrannu yn 18 o gategoriâu oedran, gan ddechrau â'r grŵp ieuengaf, 4-7 oed, a gorffen gyda'r grŵp hynaf 16-18 oed. Neilltuwyd swm o £500 i'w rannu rhwng enillwyr pob dosbarth.

Arbrawf arall ar ran Pwyllgor Celf a Chrefft yr Eisteddfod oedd sefydlu cystadleuaeth arbennig ar gyfer ieuencid nad ydynt yn dilyn cwrs addysg amser llawn, disgyblion ysgol neu fyfyrwyr, 16-18 oed. Gofynnir am ffolio o waith ar thema o ddewis yr ymgeisydd, a chynigir un wobwr sylweddol, sef £200, i'r cystadleuydd llwyddiannus.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL


ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
PENLLYN 285
neu PADARN 327

Cyfarchion y Tymor
i chwi oll



ATGOFION

(Cyfres o ysgrifau byrion gan Goronwy O. Jones, Caerfynnon, Penisa'rwaun)

TUA'R GORLLEWIN GWYLLT

Erbyn y flwyddyn 1922 'roedd tri o blant gan fy rhieni, sef fy mrodyr Rolant, Dafydd a minnau'r mab hynaf. 'Roedd fy nhad wedi llwyddo i gael gwaith efo'r 'Corporation' ym Mangor, ac arhosodd yn yr un swydd nes iddo ymddeol tua 1960.

Yn 1922 'doedd dim trydan, dim radio a dim teledu yn y tai. Beth oedd yn ein difyrn ni'r plant fwy na dim oedd eistedd o flaen y tân wrth ochr ein mam a gwrando arni'n adrodd straeon am ei harhosiad yn America yn y cyfnod 1909-1913. Aeth allan cyn iddi briodi i weithio ar ransh ei hewythr, — Ewythr Huw, yn Kansas. 'Roedd y ransh yn anferth, ac 'roedd tŷ'r teulu yn unigryw gan mai hwnnw oedd yr unig dŷ cerrig yn y cyffiniau. 'Roedd bod yno, yn ôl fy mam, fel bod ynghanol y ffilmiau cowbois yn y pictiws, achos 'roedd criw o gowbois yn gweithio i Ewythr Huw. Aethant allan dros y paith adeg rowndio'r gwartheg gyda'r 'chuck-wagons' yn eu dilyn am gyfnod o dair wythnos. Mor fawr oedd y ransh, a mor niferus y gwartheg fel bod raid cael 'siding' arbennig yn rhedeg o'r rheilffordd i'r ransh i'r cowbois gael llwytho'r gwartheg ar y trên. Gwelodd fy mam drenau gyda 100 o gerbydau gwartheg yn cychwyn o'r ransh i gludo'r anifeiliaid i Chicago i'w troi'n Corned Beef!



Yr hen dŷ cerrig unigryw.

Amser eira mawr byddai'r teulu'n cael hwyl gyda'r nos yn mynd am dro ar gar-llusg anferth yn cael ei dynnu gan ddau geffyl. 'Roedd pawb yn canu Cymraeg — Cymry oedden nhw i gyd. Un noson loergan sylweddolodd un o'u mintai bod y tresi wedi torri a bod y ceffylau wedi rhedeg tua 25 llath i ffwrdd. 'Doedd dim amdani ond i'r dynion fynd ar ôl y ceffylau ac wedyn bu chwilio dyfal am ddarn o weiren i drwsio'r tresi, ond 'doedd dim ffensys ar y paith. O'r diwedd cafwyd darn o weiren i drwsio'r tresi ac ail-fachu'r car-llusg.

Ambell noson byddai fy mam yn mynd am dro ar ei phen ei hun mewn 'buggy'. 'Roedd hi'n medru trin y ddau geffyl ond ar un achlysur llwyddodd neidr i'w dychryn, a chafodd mam drafferth i'w rheoli. Rhaid oedd defnyddio'r 'buggy' i fynd i Capel Cymraeg ar y Sul. 'Roedd cynulleidfa arbennig o dda bob dydd Sul.

Soniais am y tŷ cerrig unigryw. O dan y tŷ 'roedd seler anferth. 'Roedd dau bwrpas i'r seler. Yn gyntaf, 'roedd yn storfa ffrwythau i gadw afalau a ffrwythau eraill erbyn caledi'r gaeaf. Ail-bwrpas y seler oedd fel lloches rhag corwyntoedd y paith.



Y teulu a'r gweision. Mam Mr Goronwy O. Jones sydd yn sefyll yr ail o'r dde yn yr ail res.

Y TABERNACL (EF) Deiniolen

Nid gwaith hawdd yw ceisio rhoi yr ychydig hanes yma wrth ei gilydd wrth gofio bod eisiau crynhoi cyfnod o 120 o flynyddoedd. Gwaith trist iawn yw cofnodi cau'r capel er mis Rhagfyr 1980. Ar y Sul, y 7fed, y bu'r gwasanaeth diwethaf yno. Cyflwr yr adeilad oedd yn gyfrifol am hyn, a'r gost o'i drwsio yn llawer rhy uchel i'r aelodau ymgymryd â'r dasg, er chwilio pob ffynhonnell bosibl i gael yr arian.

Dechreuwyd yr achos yn Ebenezer (fel y galwyd y pentref ar y pryd) yn y tai. 'Roedd capel gan y Wesleaid ym Mhenisa'rwaun, a'r gweinidog yno oedd y Parch W.H. Evans. Teimlai ef y dylid codi achos Wesleaid yn Ebenezer.

Ardrethwyd y 'Tŷ Clwb' (oedd yn sefyll gyferbyn â'r lle y mae ystafell y Seindorf yn awr) am £3 y flwyddyn. Ar Ionawr 26, 1860, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi yno, a hefyd wasanaethau ar y Sul. Pan nad oedd codwr canu yn bresennol byddent yn cydadrodd salm.

Ym 1863 yr adeiladwyd y capel cyntaf, a ddaliat 200 o bobl, ar gost o £400. Ni bu hir oes iddo, a hynny yn bennaf oherwydd ei leoliad anffafriol. Yn ôl y Dr Hugh Jones, adeiladwyd tai bychain o'i amgylch, ac yn ei ymyl byddai pob 'Sioe' a ddeuai i'r pentref yn cael ei chynnal. 'Cae Tai' ar lafar gwlad a 'Tabernacl St.' yn swyddogol!

Ar gynllun Cylchdaith Caernarfon yr oedd ar y dechrau, ond erbyn y flwyddyn 1867 'roedd enw Ebenezer ar Gynllun Cylchdaith Tregarth. Felly y bu hyd nes ffurfiwyd Cylchdaith Arfon ym mis Medi 1973. Ym 1874 adeiladwyd capel arall, yn y lle a elwir erbyn hyn yn Ffordd Deiniol. Dyma'r Tabernacl presennol. Cafwyd y tir gan Stâd y Faenol. Rhoddodd yr aelodau amser caled o waith i'w adeiladu, gan gludo cerrig oddi ar y mynyddoedd a'r creigiau o amgylch. Lluniwyd y Capel i eistedd 240 ar gost o £624. Sicrhawyd echwyn o £120 a £100 o rodd gan Gronfa'r Capel. Wedi gorffen ei adeiladu y gost oedd £800. Ni chafwyd organ yma am tua 50 mlynedd; ni chafwyd 'piano' yma tan tua'r flwyddyn 1971-72. Pan oedd angen 'Piano' arnom mewn cyngerdd neu wylnos byddai'n rhaid gofyn am fenthg piano Disgwylfa. Yma hefyd y byddem yn cael benthg meinciau

amser Cyfarfod Pregethu a Chyngherddau. Ar Ebrill 4, 1961, y bu'r briodas gyntaf yma. Codwyd 8 o weinidogion o'r Capel: yr olaf oedd y Parch R. Berwyn Roberts a aeth i Ganada, ac a fu mewn gofalaeth yno hyd ryw 4 blynedd yn ôl.

Mae gennyf hefyd restr faith o weinidogion a fu yn ein gwasanaethu ac yn gofalu am yr eglwys, a hynny yn selog a thrwyadl iawn. Hefyd, mae gennyf restr o'r blaenoriaid ar hyd y blynyddoedd, y rhai fu'n arweinyddion y gân, ac yn organyddion, rhai fu'n glanhau a gofalu am yr eglwys am flynyddoedd maith, ac a wnaeth eu gwaith yn ddistaw, diwyd a dirodres, a rhai fu'n barod eu cymwynas ar hyd y blynyddoedd yn yr Ysgol Sul, Yn sicr mae ein dyled yn fawr iawn i bawb a gymerodd ddiddordeb yn yr achos. Yn bennaf oll i Dduw am ganiatáu i ni gymryd rhan yn ei waith Ef.

Ein gweinidog presennol yw'r Parch Erfyl W. Blainey. Mae Carreg Goffa i'r diweddar Barch George W. Brewer wedi cael ei rhoi i Gapel Saron, Bethel. Mae trefniadau mewn llaw i werthu'r adeilad, ond nid oes gwerth yn y byd am y profiadau a gawsom yno hyd y blynyddoedd fel aelodau. Cerdded i Benisa'rwaun wnaeth yr arloeswyr cyntaf i gael addoli gyda'r Wesleaid. Erbyn hyn, nid oes angen mynd cyn belled â Phenisa'rwaun. 'Rydym yn cydaddoli gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Eglwys Disgwylfa, ond fel uned Wesleidd. Mae aelodau Disgwylfa yn groesawus iawn. Gwyddom ei bod yn anodd iawn torri tir newydd fel petai. Mae gennym 30 o aelodau, ac oddeutu 20 o blant yn cynnwys babanod. Yn wir, mae'n rhaid diolch i'r plant am fynychu'r Ysgol Sul mor selog. Maent hwy yn cymryd rhan ymhob gweithgareddau sydd gan Gapel Disgwylfa. Diolch hefyd i'r swyddogion a'r Parch Trefor Lewis yn Disgwylfa am uno mor rhwydd yn y trefniadau.

J. Eirlys Williams (Ysg.)

Newydd ddod o'r Wasg DIOLCHGARWCH

Llyfryn yn cynnwys deunydd ar gyfer addoli ar y thema diolchgarwch. Ar gael oddi wrth:

Euros Wyn Jones
Bwlch Melyn,
Henllan Amgoed,
HENDYGWYN

Pris £1 (trwy'r Post £1.25)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

J.M. JONES A'I FAB
GWAITH CERRIG BEDDAU
A THREFNWYR ANGLADDAU
DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYN 518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

TAN-Y-COED

PRIODAS - Ddydd Sadwrn, Tachwedd 21, yng nghapel y Tabernacl, Rhuthun priodwyd Carys, unig ferch Mr a Mrs David Williams, Bryn Hyfryd, Tan-y-Coed â Mr Trevor G. Done, Manor House Farm, Hampton Heath, Swydd Gaer.

Y Parch W.O. Roberts, Llanrug a'r Parch John Owen, Rhuthun oedd yn gweinyddu. Y morynion oedd Miss Sandra Frodsham, ffrind y briodferch a Miss Rhian Owen, cyfnithr y briodferch a'r gwas priodas oedd Mr Dave Crowther, ffrind y priodfab.

Treuliwyd y mis mêl yn Ynysoedd y Canary. Llongyfarchiadau a dymuniadau da'r ardal i Mr a Mrs Trevor G. Done. Pob bendith i'r dyfodol.

COFION a dymuniadau da aelodau Ysgol Sul Tan-y-Coed i Catrin Williams, 3 Tai Minffordd sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Adferiad buan i Catrin.

SGŌ - Ar Ragfyr 4 aeth tair geneth o'r ardal i Gaeredin i gystadleuaeth sgio. Y genethod, aelodau o ddau dîm oedd yn cynrychioli Cymru ym Mhrofion Terfynol Prydeinig Ysgolion Prydain, oedd Margaret E. Roberts, Tai newyddion, Kirsty a Robina Mc Cann, Rallt, y dair yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail. Pob llwyddiant iddynt.

NADOLIG - Bnawn Sul, Rhagfyr 20, bydd Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sul Tan-y-Coed, o dan arweiniad y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Ddydd Mawrth, Rhagfyr 22, trefnir Te Parti i'r plant a disgwylir Siôn Corn yno.

BETWS GARMON

MARW - Bu farw Miss C. Williams, (Tan y Marian gynt), yn 82 oed, bu'r gwasanaeth angladdol yng nghapel Salem ddydd Gwener, Rhagfyr 4. Roedd yn un o hen deulu o'r ardal, wedi ei geni a'i magu yma, ac yma bu'n byw hyd at rhyw bum mlynedd yn ôl, pryd y dirywiodd ei hiechyd ac yr ymgartrefodd â'i theulu yn y Ffôr ac wedyn mewn Cartref yn Nefyn. Bu'n ysgrifenyddes am gyfnod maith iawn i gwmni Ellis Davies, Cyfreithwyr, Caernarfon. Cydymdeimlir â'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

GENI - Rhagfyr 4 ganwyd merch fach, - Tamson - i Mr a Mrs David E. Williams, Eureka. Llongyfarchiadau iddynt.

BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU gwresog i Mr a Mrs Pritchard, Glyn Afon a oedd yn dathlu 55 o flynyddoedd o fywyd priodasol ar Ragfyr 4.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Dorothy Wager, y Llythyrdy, ar ei llwyddiant mewn cystadleuaeth flynyddol o frodwaith dan nawdd Urdd y Brodweithwyr a gynhaliwyd eleni yn Skipton. Mae Mrs Wagner yn aelod o gangen Gogledd Cymru, a llwyddodd i ddod yn gyntaf am wreiddioldeb a chynllunio, ac yn bedwerydd yn y canlyniadau terfynol. Thema'r gystadleuaeth oedd 'Coed'. Mrs Wager oedd yr unig un o Gymru i ennill gwobr.

CLWB PEDWAR UGAIN - Tachwedd. Tachwedd 6: 1. Carol Houston, 2. Meilir Roberts, 3. Gary Williams. Tachwedd 13: 1. Geraint Morris, 2. Liz Thomas, 3. Seth Thomas. Tachwedd 20: 1. Jenny Roberts, 2. Euronwy Roberts, 3. Ken Jones. Tachwedd 27:

1. Lew Siop Ganol, 2. Mrs Hasson, 3. Bobby Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED A CHLWB Y MAMAU - Ymunodd aelodau'r sefydliadau uchod yn ddiweddar i fwynhau eu swper a disgo Nadolig blynyddol yng ngwesty Bron Eryri.

PROFEDIGAETH - Ar Dachwedd 19, bu farw Mrs Mary Roberts, Penllyn, Brynrefail yn 79 oed. Yn enedigol o sir Fôn, 'roedd Mrs Roberts wedi byw ers blynyddoedd lawer yn yr ardal, yn gyntaf ym Mhontrug, ac yna ym Mhenllyn. 'Roedd yn gymeriad hoffus ac 'roedd pawb yn ei hedmygu. Mae ein cydymdeimlad gyda'r teulu yn eu profedigaeth, ac yn enwedig ei mab Bobby a'i merch-yng-nghyfraith Jenny. Hefyd Alwyn, Shirley, Neil a Rodney. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad. Bydd y rhoddion ariannol yn mynd i Gronfa Ymchwil Cancr yr Ysbyty ym Mangor.

CEUNANT

Ychwaneg o benillion i gyfarch Mr a Mrs H. Jones, Tŷ Ucha.

Llongyfarchiadau ichwi -
Ar ddathlu'r uno 'nghyd,
Aeth Hanner Canrif heibio,
Bu llawer tro ar fyd,
Mae'r fodrwy wedi gwisgo
Ychydig bach, mae'n siŵr,
Ond deil y clychau i dincian
Yn beraidd ar y twr.

A chlywir heddiw'r miwsig
Oddi yma heb ddim os,
A chydio'n dynnach dynnach
A wna y cwlwm clos,
Hen gwlwm yr addewid
Cydrhyngoch chwi eich dau,
Ar ben y Deg A Deugain
Yn wir y mae'n tynhau.

Tynhau a wna ef eto -
Ni lacia, gwyddom hyn,
Mae fflam y serch a'r cariad
Am fynnu cadw ynghyn,
Deil cwch eich glân briodas
I hwylio ar y lli,
Mae'r awel lond yr hwyliu,
Hwre! Hwre! i chwi.

Mae'r teulu'n tiwnio'r tannau
Ac uno yn y gân,
Yn hwyli y dathlu heno -
Troin goelcerth y mae'r tân -
Mae'r gwreichion aur yn esgyn
Yn swm yr hyfryd gôr -
Fry fry i ben y mynydd
O Westy glan y môr.

Cawodydd o gonffeti
Sy'n dal i ddod i lawr,
Lwc Dda! yn diaspedain
Nes crynu'r Wyddfa fawr,
A gŵr a gwraig Tŷ Uchaf
O hyd sy'n berchen gwên,
Yn dal i gadw'n ifanc,
Dim arwydd mynd yn hen.

Y mae'r Mis Mêl yn aros,
Ac aros eto wna,
Er dyfod o Fis Tachwedd -
Mae yma heno'n Ha'.
Ni theimlir iâs y barrug
Na brath ystormus wynt,
Cynhesrwydd y Briodas -
Sy'n aros megis cynt.

T.H.W.

CARDIAU AR GYFER BOB ACHLYSUR

Rhoddwyd cynllun y cardiau yn anrheg i grŵp gwrth-niwclear Bangor gan yr arlunydd David Woodford. Mae'r ddau gynllun yn dangos golygfeydd yn nyffryn Nantlle. Nid yw'r cerdyn yn dwyn unrhyw neges - a gellir ei ddefnyddio felly ar gyfer unrhyw achlysur drwy'r flwyddyn.

Gallech gefnogi'r grŵp drwy brynu rhai o'r cardiau at eich defnydd eich hun neu gallech werthu rhai dros y grŵp. Ymholwch â Gareth Griffiths, 19 Llwybr Main, Mynydd Llandegai, Bangor. Ffôn Bethesda 601081.

Prisiau - Cerdyn ac amlen - 10c. 10 am £1; 20 am £2; 100 cerdyn - £8.

Cardiau llynedd (swm cyfyngedig) 6c yr un; 10 am 60c; 100 am £6.

Mae'r holl enillion o werthu'r cardiau yn mynd tuag at ymgyrch wrth-niwclear.

Y BOM yn Llanberis

Daeth mwy a mwy o bobl i ddeall mor ynyd yw polisi'r llywodraeth o arfogi niwclear pellach a chafwyd cynnydd aruthrol yn y gefnogaeth i'r Ymgyrch Diarfogi Niwclear, Y.D.N. (CND). Oherwydd y twf yn aelodaeth yr YDN yng Ngwynedd sefydlwyd nifer o gelloedd i wasanaethu gwahanol rannau o'r Sir. Yn ystod y mis diwethaf penderfynwyd ffurfio cell yn benodol ar gyfer ardal yr Eco ac fe gynhelir cyfarfod cyhoeddus i sefydlu'r gell leol yn y Ganolfan yn Llanberis, nos Fawrth, Ionawr 5ed am 7.30 p.m. Cadeirydd y noson fydd y Cynghorydd Francis Jones.

Bydd yn gyfle nid yn unig i gael gwybod mwy am yr arfau erchyll hyn ond hefyd i glywed am dwf yr YDN yn lleol a thros Ewrop gyfan ac am y gobaith newydd y gallwn gyd-dynnu i rwystro dinistr. Yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod dangosir y ffilm 'The Bomb', sef cyflwyniad diweddar gan Jonathan Dimpleby o'r hyn y mae rhyfel niwclear yn ei olygu. Dros baned o de ceir trafodaeth ar yr hyn y medrwn ei wneud yn lleol fel cyfraniad i'r ymgyrch heddwch.

Erfynnir ar i bawb sydd dros ddiarfogi niwclear ddod i'r cyfarfod hwn i gyfrannu eu syniadau, i drafod gwaith y gell leol ac i godi pwyllgor i lywio'r gwaith.

Eisoes cychwynnwyd yn Llanrug, Cwm-y-glo a Phenisarwaun ar y gwaith o fynd â deiseb Ymgyrch Ddiarfogi'r Byd o gwmpas cartrefi'r fro. Bydd cyfle yn ystod y misoedd nesaf i bron bawb drwy'r ardal ychwanegu eu henwau i'r ddeiseb fyd-eang hon.

Gellir cael manylion am yr YDN yn lleol oddi wrth Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug (Caernarfon 3838) ac os ydych am ymaelodi â'r Ymgyrch anfonwch dâl aelodaeth o £1, neu 50c os yn ddi-gyflog, i'r cyfeiriad uchod.



**ATGYWEIRIO DODREFN
'FRENCH POLISHING'
UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y
GWAITH**

J. RHEON PRITCHARD

14 GLANRAFON

BONTNEWYDD

Ffôn: Caernarfon 3507)



Nadolig Lawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GLWB PÊL-DROED LLANBERIS

a diolch i bawb am eu cefnogaeth ymhob
achlysur yn ystod y flwyddyn

DYDDIAD I'W GOFIO

NOS IAU, IONAWR 7, 6.30

**NOSON GOFFI A STONDINAU
YN Y GANOLFAN**

GWAITH Y CYNGOR GWLAD

Pa sawl gwaith y clywir pobl yn gofyn beth yn union yw'r Cyngor Gwlad a beth yw ei waith? Ei brif bwrpas yw hybu gweithgarwch bron ymhob maes sy'n gwella bywyd gwledig, ac nid rhyfedd yn Arfon yw ei weld yn ymwneud llawer â maes diwylliant. Enghraifft o hyn yw'r Wyl Ddrama Ieuenctid lwyddiannus a gynhaliwyd yn Theatr Seilo ym mis Mai. Penderfynwyd ail-adrodd yr Wyl hon ond gan dynnu Rhanbarth Dwyfor i mewn hefyd a hynny ym mis Mai eto. Y tro hwn, hefyd, bwriedir rhannu'r gystadleuaeth yn ddwy: un ar gyfer cwmnïau drama o Ysgolion Uwchradd a'r llall i fudiadau ieuenctid. Teimlwyd bod hyn yn decach i bawb a fwriada gystadlu.

Fe gaiff arlunwyr Rhanbarth Arfon gyfle yn yr arddangosfa o weithiau arlunwyr ieuaic a drefnir tuag adeg y Pasg. Gan y bydd posibilrwydd mai dyma'r adeg yr agorir y llyfrgell newydd yn nhref Caernarfon, addas iawn oedd cydio yn y cyfle i fod y mudiad cyntaf i drefnu arddangosfa yn yr adeilad newydd sbon hwn gyda'i ddarpariaethau modern.

Mae'n syndod cynifer o bobl sy'n ymddiddori yn y byd ffotograffiaeth, er mor gostfawr ydyw fel hobi. Newydd da felly yw y ceir arddangosfa o luniau hanesyddol ym Mhenygroes yn

ystod y gwanwyn nesaf.

O gofio am lwyddiant mawr Eisteddfod flynyddol Dyffryn Ogwen fel un enghraifft yn unig, siawns nad oes gobaith i drefniadau i gynnal Eisteddfod leol yn nhref Caernarfon droi yr un mor lwyddiannus - yn enwedig os gellid gwneud defnydd priodol o'r profiad a'r eiddgarwch a gaed adeg cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr hen dref ddwy flynedd yn ôl.

Gofynnodd y Cyngor Gwlad i Gyngor y Dref alw cyfarfod cyhoeddus i ymdrin â'r mater ac i fesur faint o ddiddordeb sydd mewn syniad o'r fath.

Cyhoeddiadau ar werth am bris gostyngol (Post yn ychwanegol:) Atlas Môn £1.70. Rhwng Môr a Mynydd (Lloffion o hanes Amlwch) 35c. Cylchgrawn Môn (Rhifynnau rhwng 1954-72) 15c. Gwŷr Môn £1.30. Tonnau ar y Traeth gan Catherine Roberts (Hanes bywyd yr Awdur) 30c. Lle bu Llew gan Janet D. Roberts (Hanes ardal Nantlle) 50c. Tros Bont Penllyn gan Mat Pritchard 50c. Atlas Sir Gaernarfon (fersiwn Cymraeg ac un Saesneg £3.00. Ail gnoc ar y drws gan T.C. Simpson 95c. Darlith Huw Williams ar T. Osborne Roberts 50c.

Oddi wrth: Swyddfa Cyngor Gwlad, 2 Cei Llechi, Caernarfon. Ffôn 2626.

DINORWIG

LLONGYFARCHIADAU - Estynnir llongyfarchiadau calonnog i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir ar ennill ohoni y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, Llanrug ar gyfansoddi ysgrif ar y teitl 'Breuddwyd'. Pob lwc yn y dyfodol am ragor o gadeiriau.

DYMUNIADAU GORAU i Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel, ar ddathlu ohonynt eu priodas arian, ar Ragfyr 1 eleni. Pob bendith a hapusrwydd i'r dyfodol.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos Fercher, Rhagfyr 2 yn y Ganolfan cafwyd sgwrs a ffilm ddiddorol ar ei daith i'r Unbl Daleithiau gan y Cyngorydd Robert Haines, Caernarfon. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan lywydd y noson, Mr Hugh Thomas, Bro Elidir, a thalwyd diolch gan Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis.

I'R YSBYTY - Drwg gennym ddeall fod Mr David Jones, 5 Maes Eilian wedi gorfod mynd i'r ysbyty i geisio triniaeth arbennig er cael adferiad iechyd. Dymunir adferiad buan iddo.

DIOLCHIADAU - Dymuna Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol ddiolch i

bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra fu yn Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch yn arbennig i'r staff ac i Dr Medwyn Williams gynt o Ddeiniolen. Diolch i bawb.

Dymuna Dick a Dilys, Tŷ Capel Dinorwig, ddiolch o galon i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am y rhoddion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas arian.

Dymuna Miss Netta Williams, Padarn Stores, Fachwen, a Mr a Mrs J. Eurwyn Williams a Sioned, Isfryn, Ffordd Bangor, Caernarfon, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Nora. Hefyd am bob arwydd o garedigrwydd a gofal a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei gwaeledd. Diolch yn arbennig i'r meddyg teulu a'r gweinyddesau.

Dymuna Trebor Thomas, Bwlch Gwynt ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a'r dymuniadau da ar gyrraedd ohono ei ben-blwydd yn 18 mlwydd oed, Tachwedd 23 eleni.

NADOLIG LLAWEN i ddarlennwyr yr 'Eco', a'n cofion at bawb sy'n cwyno gan obeithio gwellhad at y Flwyddyn Newydd.

CWM-Y-GLO

RHEDEG - Ar ôl cystadlu'n llwyddiannus iawn yn Ras yr Wyddfa, y 'Pony British Marathon', 'Hanner-Marathon' Caernarfon, Marathon Elusennau Manceinion a'r Ras o amgylch Llyn Tegid, mae Ashley Gwynan Wager, Hafodty, Cwm y Glo, yn gobeithio y caiff ei gais i redeg ym Marathon Llundain ei dderbyn gan Swyddogion y Ras. Mae tîm pêl-droed Cwm-y-glo wedi codi £60 trwy ymdrech noddol ar gyfer Ras Manceinion. Mae aelod arall o deulu Ashley, sef ei frawd Christopher Rhys

Wager, y Llythyrdy, Brynrefail, hefyd yn gobeithio rhedeg yn Ras Llundain, ar ôl llwyddo i orffen y rاسus a restrir uchod.

RHODDION ER COF - Derbyniwyd y swm o £122 mewn rhoddion er cof am y diweddar Mr Eleazar Rowlands, 4 Dolafon tuag at Gronfa Ymchwil y Cancr. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu haelioni.

GWASANAETH Y NADOLIG - Yn Eglwys Sant Gabriel. Fore Dydd Nadolig 9.30am - Cymun Bendigaidd.

NADOLIG LLAWEN

a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr Papurau Bro Cymru.

Rhagfyr 20:

Nadolig Llawn am 3.30 p.m. Plant Ysgol Pendalar, Caernarfon yn cyflwyno stori'r Geni gyda Elinor Bennett Wigley.

Rhagfyr 23:

Goglis Nadoligaidd 3.20 p.m.

Rhagfyr 24:

Sêr arbennig 4.15 p.m.

Rhagfyr 25:

Dydd Nadolig

Cyn Cinio 11 a.m. Rhaglen arbennig o'r Wyddgrug gydag Aled Lloyd Davies, Nerys Hughes ac eraill.

Rhagfyr 26:

Râs Sgwâr 5.05 p.m.

Gorau Gwerin

Ar ddydd Mawrth am 10.30 p.m. Y gyfres newydd yn parhau ar HTV Cymru - Gorau Gwerin pan fydd Dafydd Iwan a Linda Griffiths yn cyflwyno rhai o gantorion gorau'r werin. Noson lawen o ganu, diddanu a beirniadu'r englyn digri a'r limerig.

O Gaerdydd, yr Wyddgrug, Bangor a Chaerfyrddin.

HTV
CYMRU WALES

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD



CYFARCHION

BETHEL

Dymuna

SAM A MARGARET JONES
CEFN FARM

LLANDDEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670282

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb o'u cwsmeriaid a'u ffrindiau.

*Diolch am eich cefnogaeth drwy gydol 1981
Pleser fydd eich gwasanaethu eto ym 1982 â
Llefrith, Hufen ac Wyau*

TAFARN GORS BACH

LLANDDEINIOLEN

Dymuna

Bob, Mair a'r staff
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL




NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL
ODDI WRTH BAWB YN



GAREJ MINFFORDD
BETHEL (T.R. & S. EVANS)
Ffôn: Y Felinheli **670451**

1982 – Blwyddyn Newydd – Car
Newydd. METRO neu
TRIMPH ACCLAIM
Dewch draw i'w
gweld!



EISTEDDFOD BETHEL

Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 5, cafwyd ail eisteddfod lewyrchus iawn yn 1981. O'r gystadleuaeth gyntaf am un y prynhawn tan y gystadleuaeth olaf am hanner nos cafwyd cystadlu brwd a safon uchel. Enillwyd cadair y'r Eisteddfod gan Mrs Alys Jones am ei stori fer mewn gystadleuaeth a gafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, John Hywyn.

CANLYNIADAU CANU

Dan 4 oed: Donna a Sheila Guy, Meilir Evans, Gwenan Elis, Gwenan, Iwan Hughes. **Dan 6:** 1. Sian Llewelyn Jones, 2. Lliwen Jones, 3. Non Llewelyn Jones a Menna D. Williams. **Dan 8:** 1. Ruth Parry, 2. Bethan Jones, 3. Eysyllt Môn Jones. **Dan 10:** 1. Angharad Price, 2. Gwen Jones, 3. Euron Hughes. **Dan 12:** 1. Helen Jones, 2. Meinir D. Williams, 3. Amanda Owen. **Dan 12**

(Bechgyn): 1. Euron Hughes, 2. Aled Jones. **Dan 15:** 1. Manon D. Williams. **Unawd Piano dan 9:** 1. Lynne Roberts, 2. Non Llewelyn Jones, 3. Eysyllt Môn Jones. **Deuawd piano dan 9:** 1. Ceryl Roberts ac Anwen Jones, 2. Eysyllt M. Jones a Non Ll. Jones, 3. Lynne Roberts a Ruth Parry. **Unawd Piano dan 12:** 1. Lynne Hardwidge, 2. Catrin Evans, 3. Mari Owen ac Euros Jones. **Deuawd Piano dan 12:** 1. Meinir D. Williams a Helen Jane Jones, 2. Angharad Price a Mari Owen, 3. Gwenan Davies a Catrin Evans, 4. Nicola Wallis a Lynne Hardwidge. **Unawd Piano dan 15:** 1. Ceinwen Parry, 2. Manon D. Williams. **Parti Danu dan 12:** 1. Parti Bando, 2. Bonheddwyr Bethel. **Unawd unrhyw offeryn heblaw piano dan 12:** 1. Nicola Williams, 2. Angharad Price.

ADRODD

Dan 4: 1. Menna D. Williams, 2. Non Llewelyn Jones, 3. Sioned Hughes. **Dan 8:** 1. Eysyllt M. Jones, 2. Bethan Jones a Sioned Owen, 3. Ruth Parry. **Dan 10:** 1. Angharad Price, 2. Gwen Jones a Jennifer

G. Jones. **Dan 12:** 1. Meinir D. Williams, 2. Amanda Owen, 3. Elwyn Parry a Helen Jones. **Dan 15:** 1. Manon D. Williams, 2. Paul Roberts.

LLENYDDIAETH

Dan 6: Non Ll. Jones, Lliwen Jones, Sian Ll. Jones, Menna D. Williams, 2. Iolo Price, Llinos Wyn Rees, Sioned Hughes. **Dan 8:** 1. Wenna Ll. Williams, 2. Irfon Price a Lynne Roberts, 3. Manon Elis, Ruth Parry a Bethan Jones. **Dan 10:** 1. Carys Owen, 2. Angharad Elis, 3. Ceri Hughes. **Dan 12:** 1. Meinir D. Williams, 2. Mari Owen, 3. Meinir Owen a Helen J. Jones. **Dan 15:** 1. Manon D. Williams, 2. Judith Owen a Gwenno M. Owen, 3. Myfyr Jones.

ARLUNIO

Dan 6: 1. Non Ll. Jones, 2. Lliwen Jones a Sian Llewelyn Jones, 3. Llinos Wyn Rees a Menna D. Williams. **Dan 8:** 1. Gwyn Hughes a Ruth Parry, 2. Mared Wyn Sutherland a Sioned M. Owen, 3. Wenna Lloyd Williams a Bethan Jones. **Dan 10:** 1. Rhian Hughes, 2. Ceri Hughes a Jennifer G. Jones, 3. Carys Owen a Gail Warrington. **Dan 12:** 1. Ian Mercer, 2. Mari Owen, 3. Euros Jones a Meinir D. Williams. **Dan 15:** 1. Richard Evans, 2. Gwenno M. Owen, 3. Myfyr Jones. **Agored:** Mrs Eirlys Hughes, 2. Mrs Alys Jones.

Dyddiadur am Wythnos: Mrs M.G. Williams. **Cerdd Gocos:** 1. Dafydd Williams. **Telyneg:** 1. Mrs Alys Jones. **Emyn - Carol Nadolig:** 1. Mrs Alys Jones. **Stori Arswyd dan 25 oed:** 1. Helen Jones, 2. Manon D. Williams. **Cerdd dan 18:** 1. Myfyr Wyn Jones. **Llyfr Lloffion dan 18 - Bethel:** 1. Gwenno M. Owen, 2. Myfyr Wyn Jones. **Telegram:** 1. Mr Dafydd Williams a Mr Goronwy Jones. **Brawddeg:** 1. Mrs M.G. Williams, 2. Ceinwen Williams, Dafydd Williams a Mrs M.G. Williams. **Llythyr Serch:** 1. Mr J.E. Thomas. **Ysgrif neu Stori Fer:** 1. Mrs Alys Jones. **Llinell Goll:** 1. Mrs Ellen Ellis. **Wythawd:** 1. Wythawd Cymysg, 2. Wythawd Meibion. **Unawd dros 10:** 1. Mrs Betty Farrar. **Adrodd dros 18:** 1. Mrs Rita Williams, 2. Mrs Madge Williams. **Deuawd Piano:** 1. Ann Evans a Betty Owen, 2. Heulwen Williams ac Angharad Price, Ceinwen a Rhian Parry, 3. Manon Williams a Ceinwen Parry. **Sgets:** 1. Merched y Wawr, 2. Ar y Bws. **Côr Adrodd:** 1. Merched y Wawr, 2. Merched y Prynhawn. **Alaw Werin:** 1. Rita Williams, 2. Ann Hopcyn Evans. **Cân Ysgafn:** 1. Merched y Wawr. **Deuawd Agored:** 1. Rita ac Ann, 2. Meinir ac Angharad. **Parti Alaw Werin:** 1. Parti Merched y Wawr, 2. Parti Saron. **Côr Pedwar Llais:** 1. Côr Cadnant.

GWNŌ CROSIO neu WAU

Dan 9: Scarff Doli. - 1. Gwen Jones, 2. Llinos Williams. **Dan 12:** Llain Hambwrdd: 1. Eluned M. Roberts, 2. Meinir Owen. **Dan**

16: Gorchudd Clustog: 1. Gwenno M. Owen.

Ffrog: 1. Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, 2. Mrs Sheila Williams, 32 Bro Rhos. **Cystadleuaeth Arbennig, Gwnio:** 2. Mrs Merle Wallis, 4 Cremlyn. **Matinee Coat:** 1. Mrs Meinir Hughes, Gwynfryn, 2. Mrs Ellen Ellis, 2 Ystad Eryi. **Siwmpwr:** 1. Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, 2. Mrs Sheila Roberts, 12 Tan y Buarth. **Unrhyw beth i ddangos brodwaith:** 1. Beti, 2. Mrs Merle Wallis. **Cystadleuaeth Arbennig Wau:** 1. Mrs Gwyneth Williams, 2. Mrs Merle Wallis.

CELF A CHREFFT

Addurn Nadolig: 1. Mrs Meirlys Hughes, Siabod (2 gydradd gyntaf), 2. Mrs Alys Jones, Llys Alaw. **Gwaith Coed:** 1. Mr Seiriol Owen, Crud yr Awel. **Gwaith Metel:** 1. Mr Seiriol Owen, 2. Richard Williams, Hafod. **Unrhyw beth o focs esgidiau:** 1. Angharad Price, 2. Mrs Sheila Roberts. **Collage:** 1. Mrs Alys Jones, 2. Meinir Owen.

COGINIO

Dan 12: Bisgedi: 1. Gail Warrington, 2. Rhian Hughes, 3. Meinir Owen. **Dan 16:** Maids of honour 1. Manon D. Williams, 2. Gwenno M. Owen. **Teisen Nadolig:** 1. Mrs Lynwen Morris, 2. Mrs Lynwen Morris, 2. Mrs Eirlys Sharpe. **Bara Birth:** 1. Mrs Gwyneth Jones, Fachell, 2. Mrs Mair Jones, Glan Gors. **Jam neu Jeli Mwyar Duon:** 1. Margaret Jones, Cefn, 2. Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd. **Log Nadolig:** Cydradd 1. Mrs Lynwen Morris a Mrs Anne Ellis a Mrs Delyth Williams. **Torth Wen:** 2. Mrs Norah Parry, 11 Tan y Buarth. **Torth Frown:** 1. Mrs Ann Hopcyn Evans, Gorffwysfa, 2. Mrs Anne Hughes, Tan y Maes. **Picl Cymysg:** 1. Mrs B. Farrar, Rhoslan, 2. Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc. **Teisen Blât:** 1. Mrs G.E. Davies, 4 Y Ddôl, 2. Mrs Eirlys Sharpe. **Taffi Triog (dynion):** 1. Mr Brian Sharpe, 2. Myfyr Jones, Glan Gors. **Unrhyw beth o begiau dillad:** 1. Mrs Rita Williams, 2. Mrs Rita Williams.

Beirniad Adrodd a Llên: John Hywyn, Llandwrog. **Beirniad Cerdd:** T.J. Williams, Llanrwst. **Beirniad Arlunio:** Evie Roberts, Penygroes. **Beirniad Celf a Chrefft:** D.W. Evans, Penisarwaun. **Beirniad Coginio a Gwau, Gwnio:** Beryl Lloyd Owen, Caernarfon. **Llywydd:** Mrs Gwen George, Benllech.

Raffl: Bocs nwyddau: Andrew Jones, Gwynys, Bocs Ffrwythau - Dafydd Williams, Hafod.

Diolch i'r ysgrifenyddes, Myfanwy Jones, Glan Gors, i bwyllgor yr Eisteddfod ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod.

CYFARCHION Y TYMOR a DYMUNIADAU GORAU AM 1982

oddi wrth

WILL a VAL GUY
DONNA a SHEILA


TREFLYN STORES BETHEL

Bwydydd, Melysion, Teganau, Edafedd a
Diodydd ar gyfer y Nadolig

Y FELINHELI 670237

Diolch i bawb am eu cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



BILL ac EILEEN
GRIFFITHS

Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

HELEN WILLIAMS

BRYN DAIRY
Tŷ'R YSGOL
BETHEL

Ffôn: Y FELINHELI 670417



Côr Cadnant — Y Côr Buddugol



NEGES BWYSIG I HOLL
DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda Oddi wrth

GWALIA GARAGE

PERCHENOGION
H.G. & H.S. EVANS
CAEATHRO



Ffôn:
CAERNARFON 3096



CYFARCHION
NADOLIG
O'R
WAUNFAWR
A CHAEATHRO

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**T.A. Thomas
Ltd.**

(ADEILADWYR)

STORDY Tŷ NEWYDD

BWYDYDD, MELYSION,
FFRWYTHAU A
PHAPURAU NEWYDD

Ffôn: Waunfawr 276

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth bawb
ym

MODURDY
Whiteways
WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

E. A. & W. WALTER

**Llythyrdy
WAUNFAWR**

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 221

Cyfarchion yr Wyl
oddi wrth
JONES & OWEN



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth

Ffôn: Waunfawr 239

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

Modurdy


PANT WAUN

WAUNFAWR

(JOHN FERRAREZE)

GWASANAETH TORRI-LAWR A THRWSIO CEIR
PROFION M.O.T.
TRIN PANELAU ac ati

Ffôn: WAUNFAWR 524
- Hefyd CAERNARFON 5214
pan fydd y modurdy ar gau



WAUNFAWR

CLWB GWYRFAL – Yn absenoldeb y Ficer llywyddwyd cyfarfod ddiwedd mis Tachwedd gan Mrs Parry-Williams, Gwynfa. Y gŵr gwadd oedd Mr Stan Roberts, swyddog ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Dangosodd ffilmiau gwyb, ac adroddodd hanesion rhai o'i anturiaethau yng Nghnada a De America, lle 'roedd yn un o griw fu'n dringo mynyddoedd o Ynys Ellesmere yn Canada i lawr i'r Andes yn Ne America.

'Roedd lluniau o'i ymweliad â theuluoedd yn siarad Cymraeg ym Mhatagonia o ddiddordeb arbennig. Diolchwyd yn gynnes i Mr Roberts gan Mrs Roberts, Bod Idris.

SEFYDLIAD Y MERCHED –

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Rhagfyr 3. Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, Mrs Pat Parry, Mrs Margaret Denton, Mrs Rhian Williams a Mrs Catherine Williams fel ymwelwyr i'r cyfarfod. Dymunodd adferiad buan i Miss M. Roberts, Mrs Bet Hughes ac i Mr O. Williams, Gwynfa.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'u trafod. Cafwyd arddangosfa ddiddorol gan Mrs Cemlyn Williams ar sut i wneud addurniadau Nadolig gyda dail sydd i'w cael yn yr ardd yr adeg yma o'r flwyddyn. Rhoddodd Mrs Williams yr addurniadau i'r Sefydliad ac fe'u rafflwyd hwynt. Yr enillwyr oedd Mrs Overy, Mrs B. Griffith, Mrs C.A. Jones a Mrs Doris

Roberts. Diolchodd Mrs Missen i Mrs Williams ar ran y Sefydliad. Rhoddwyd blodau'r mis i Miss M. Roberts, Glan Aber. Miss Mary Richards o Gaernarfon fydd y wraig wadd yn y cyfarfod a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys nos lau Ionawr 7. Bydd yn rhoi sgwrs ar ei hymweliad â Phatagonia.

Y GANOLFAN – Mae Merched y Wawr wedi rhoi cyfraniad hael dros ben i Gronfa'r Ganolfan ym 1981. Derbyniwyd £40 ac mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar am eu hymdrech.

YR YSGOL FEITHRIN – Mae lle i blant yn yr Ysgol Feithrin ar ôl y Nadolig. Petai rhywun yn dymuno anfon plant cysylltwch â Heulwen Jones, Cynant Lodge (ffôn 388).

Mae'r plant bach yn cael eu parti Nadolig ddydd Mawrth, Rhagfyr 22 ac fe fydd Siôn Corn yn galw i'w gweld.

Fe fydd Mrs Cadi Jones, Nant yn rhoi'r gorau i'w swydd fel athrawes yr Ysgol Feithrin ar ddiwedd y tymor. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith efo'r plant bach a dymuno'n dda i Mrs Lyn Roberts, Sŵn y Gwynt sydd yn cymryd ei lle ar ddechrau'r tymor.

CRONFA'R GANOLFAN – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am Dachwedd 1981, a dynnwyd yn yr Aelwyd Tachwedd 24. 1af – £40, Rhif 25, Rd. & F. Jones, Tanywaen; 2. £25, Rhif 120, L.G. Davies, Tros y Gors Uchaf; 3. £10, Rhif 77, C. Williams, Regal.

Fe dynnir y gwobrau nesaf nos Lun, Rhagfyr 21.

FFUG-EISTEDDFOD ECO'R WYDDFA – Nos Wener, Chwefror 5. Os oes

gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr Eisteddfod hon, dewch i Neuadd yr Eglwys, nos Fercher, Ionawr 6 am 8 o'r gloch.

YR URDD – Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni aelodau adran Bethel pan drefnwyd cwis ar eu cyfer gan Mr Gareth Hughes. Waunfawr a orfu – y tro yma. Daeth Anti Bessie (Miss Bessie Jones) atom i sôn am y sêr a'r planedau a llwyddodd i ennyn diddordeb mawr yn yr aelodau. Gobeithiwn y bydd yn noson glir y tro nesaf y cawn ei chwmi.

I ddiweddu'r tymor bydd disco yn Neuadd yr Eglwys rhwng 5-6 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 16. Nadolig Llawen i bawb.

LLONGYFARCHIADAU – I Rhodri a Sylvia, 15 Stad Tŷ Hen, ar eneidgaeth mab bychan, Aled Rhys.

I Mr a Mrs John Cotton, Bryn Hyfryd, ar fod yn nain a thaid. Ganwyd merch fach, Anna, i Robert a Jo.

I Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun ar fod yn nain. Ganwyd merch fach, Lisa, i Gwyneth Silyn a Siôn.

CYDYMDEIMLWN – Cydymdeimlwn â Mrs Griffiths, Tref Eilian ar golli ei phriod, Mr William Griffiths.

Â Mr Dafydd Griffiths, Tref Eilian, ar golli brawd.

Â'r ficer, y Parch Trefor Jones, ar golli ei fam yng nghyfraith.

Â Mrs Griffiths, Darwayne, a'r teulu, ar golli priod a thad annwyl, John Griffiths.


ANFONWN ein cofion at bawb sydd yn wael yn eu cartrefi, a gobeithiwn am wellhad buan iddynt. Ein dymuniadau gorau i bawb dros yr Ŵyl.

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN

(Waun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253



● Offer amaethyddol o bob math

● Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

SMITHY GARAGE

(PERCHENNOG W.M. CATT)

WAUNFAWR

Ffôn: WAUNFAWR 518

Gwerthwyr, Peirianwyr
ac Atgyweiriwyr Ceir

O EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



Grŵp Dawnsio Gwerin buddugol — Elidir.



'Cuts Maggie Thatcher' — y grŵp pop buddugol.

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Dipyn o amrywiaeth fel 'Hosan Nadolig' ddaw i chwi heddiw.

Nadolig

Dywedir nad yw union ddyddiad geni Iesu Grist yn wybyddus. Buwyd am ganrifoedd cyn penderfynu yn gyffredinol ar y dyddiad Rhagfyr 25. Dyweda'r Eglwys Ddwyreiniol mai ar Ionawr 6 y'i ganwyd a'r Eglwys Orllewinol yn credu mai Rhagfyr 25. O'r diwedd daeth pawb i gredu fel y Gorllewin.

Bernir gan rai fod dyddiad geni Crist bedair blynedd yn gynt na'r cyfrif presennol. Gwrth ryfodd oedd i Enediggaeth Iesu Grist rannu amser yn ddau, sef Cyn Crist ac Wedi Crist.

Ystyr y gair Nadolig yw geni. Daeth o'r gair Lladin 'Natalis'. Dywedir fod gwyl Baganaidd yn cael ei chynnal ar y dyddiad yma cyn geni Crist. Ni wyddom pa bryd y dechreuwyd cadw gwyl y Nadolig ond gwnaed hynny yn bur fore yn hanes yr Eglwys.

Y mae llawer o hen arferion yn perthyn i Wyl y Nadolig, a rhai ohonynt yn arferion da iawn hefyd.

Dechreuwyd hel a rhannu elusennau i'r tlodion yn fore yn hanes yr Eglwys Gristionogol. Hwyrach mai Judas oedd y cyntaf i awgrymu hyn pan dorrodd Mair y blwch ennaint.

Un ffordd o gasglu'r anrhegion fyddai trwy osod bocsus yn yr eglwys i'w derbyn. Agorid y bocsus ar noson y Nadolig a rhannai'r offeiriad eu cynnwys y bore drannoeth. Caredigrwyd ydyw un o nodweddion pennaf Crefydd Crist. Nodwedd amlwg arall ynddi ydyw Aberth.

Cardiau a 'Crackers'

Dywedir fod yr hen arferiad o anfon cardiau Nadolig dros gant oed. Darluniau o goed, dail celyn a robin goch yn yr eira fyddai ar y cardiau cyntaf a wnaed.

Tom Smith oedd enw'r dyn a ddyfeisiodd 'Crackers'. Erbyn hyn y maent wedi dwad yn boblogaidd gyda'r ieuanc a'r hen. Dywedir fod yr arferiad o dynnu'r 'crackers' ar y Nadolig hefyd dros gant oed. Yn y flwyddyn 1860 yn ôl a glywais y daeth y 'cracker' cyntaf ar y farchnad.

Fel hyn, medda nhw, y daeth y 'cracker' i fodolaeth.

Sylwi ar ddarn o daffi wedi ei lapio mewn papur wnaeth Tom Smith i gael y syniad cyntaf i wneud 'cracker'. Cymerodd ddwy flynedd wedyn iddo ddyfeisio y strip bach hwnnw sy'n rhoi clec wrth ei dynnu. Ni ddychmygodd Tom Smith erioed y deuai'r 'crackers' mor boblogaidd ac y byddai miliynau ohonynt ar y farchnad bob flwyddyn.

Cyfarch y Flwyddyn Newydd

Anfonwyd yr englyn canlynol i mi flynyddau'n ôl gan y diweddar J.R. Morris, Bethel. Ni wyddai J.R. Morris pwy oedd awdur yr englyn. A wyddoch chi?

Blwyddyn heb wylo iddi - a blwyddyn

Heb ludded i'ch poeni;

Blwyddyn fras, blwyddyn o fri,

Hefo iechyd fo ichwi.

Pwy?

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cyfansoddodd J.R. Morris yr englyn canlynol i gyfarch 1965. Credaf ei fod yn bwrpasol i gyfarch 1982 hefyd.

Fe ddaeth hon yn llon fel lli - sw'n a llais
Hen y lleill sy'n tewi,
Daeth diwedd ar ei meddwi
A'i chryf wynt! - Ni chriaf i.

J.R. Morris

Arwain Parti

Dywedodd Mr Griffith R. Jones, Clwt-y-bont wrth y flynyddau'n ôl, ei fod yn eistedd ar ben y wal yn y chwarel o flaen Caban y Dyffryn gydag eraill a fy nhad yn eu plith yn gwrando ac edrych ar Thomas Padarn Roberts yn disgyblu ei gôr. Yr oedd pawb yn mwynhau'r canu yn fawr iawn allan yn yr awyr iach. Ryw dro, yn ôl ei arfer, fe wnaeth fy nhad englyn i'r amgylchiad. Cofiodd G.R.J. yr englyn am byth. Dyma fo:

T. Padarn Roberts

Un pert yn arwain parti - eilun oedd.

Rhoi'r 'delyn aur' inni:

A'i beraidd glod gwnai'n codi

Dir yn uwch na'r daear ni.

Glan Rhyddallt

Dathlu'r Briodas

Oes rhywun yn gwybod pwy ddyfeisiodd y canlynol? Os byddwch am roi anrheg i bâr fydd yn dathlu pen-blwydd eu priodas, dyma'r hyn y dylai defnydd yr anrheg fod:

I ddathlu'r gyntaf, cotwm; yr ail, papur; y drydedd, lledr; 4, blodau neu ffrwythau; 5, pren; 6, siwgr; 7, gwllân neu gopr; 8, efydd (pres); 9, llestri; 10, tun; 11, dur; 12, sidan neu liain; 13, lês (lace); 14, ifori; 15, crisial; 20, llestr; 25, arian; 30, perl; 35, coral; 40, ruby; 45, saphir; 50, aur; 55, emerald; 60, diamond.

Blodau'r Misoedd

Ionawr, carnation; Chwefror, fioled; Mawrth, cenhinen Bedr; Ebrill, pys pêr (sweet pea); Mai, lili'r maes; Mehefin, Rhosyn; Gorffennaf, llysiau'r hedydd (larkspur); Awst, blodau cleddyf (gladioli); Medi, aster; Hydref, calendula; Tachwedd, blodyn Mihangel (Chrysanthemum); Rhagfyr, Croeso'r gwanwyn (narcissus).

Gemau'r Misoedd

Ionawr, garnet; Chwefror, amethyst; Mawrth, bloodstone; Ebrill, diemwnt; Mai, emrallt; Mehefin, perl; Gorffennaf, rhuddem (ruby); Awst, carnelian; Medi, saffir; Hydref, opal; Tachwedd, topas; Rhagfyr, turquoise.

Diarhebion i'w cofio i'r Flwyddyn Newydd

A fynno barch, bid gadarn.
Am y tywydd, gorau tewi.
Asgre lân, diogel ei pherchen.
Cadarn pob cyfiawn.
Ymhob braint y mae dyletswydd.
Drych i bawb ei gymydog.

Tybed a oes rhywun yn barod i egluro'r diarhebion uchod neu rai ohonynt?

Capel MC Penmount Pwllheli

Mae angen gafalwyr am adeiladau'r Capel uchod a gwahoddir ceisiadau am y swydd. Yn ychwanegol at y cyflog, mae tŷ wedi ei foderneiddio i'w gael yn ddi-rent a di-dreth.

Ymofynnwch am fanylion gan yr ysgrifennydd, Mr E.R. Williams, Bryn Eithin, Ffordd Ala, Pwllheli. Ffôn 2571.

NANT PERIS

REHOBOTH - Fore Sul, Tachwedd 22 cymerwyd y gwasanaeth yn Rehoboth gan dair o ferched ieuainc. Llongyferchir Helen, Sian a Sharon ar waith graenus a defosiynol.

LLONGYFARCHIADAU - Pleser eto cael llongyfarch rhai o'r plant ar eu llwyddiant mewn Eisteddfodau. Cafodd Helen Mai y wobr gyntaf am adrodd yn eisteddfod ysgol Brynrefail allan o nifer fawr o ymgeiswyr.

Yn eisteddfod St Peris a St Padarn bu Llinos Haf yn gyntaf am ganu a gwaith llafar ac yn ail am adrodd a modulator yn yr adran 6-8 oed. Enillodd hefyd fedal crochenwaith am y marciau uchaf yn yr adran.

CYDYMDEIMLWN â Mr T.J. Roberts, Llys Awel a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer oedd ar y pryd yn gwneud ei chartref gyda'i merch a'i mab yng nghyfraith, y Parch a Mrs Trefor Jones, ficer Caernarfon.

CYMORTH I CHWERTHIN

HYSBYSEB - Cynhelir Jumble Sale yn y Ffestri nos Fawrth, os oes gennych ryw Beth i'w dalu allan dowch â fo i'w werthu. O.N. Cofiwch ddwad â'ch gwŷr!!

Y GIBLETS - Cyrraeddodd yr wydd yn saff drwy'r post erbyn y Nadolig - wedi agor y parsel rhedodd Mrs Jones i'r post ac wedi gwyltio'n gacwn - gwaeddodd ar y postman - gan ddal ei dynnau yn ei wyneb - "Lle mae'r giblets 'ngwas i?"

Y CERDYN - Cafodd Wil fynd ar drip i'r Cyfandir gyda Dosbarth o'r ysgol. 'Fedra' Wil ddim sgwennu na darllen. Ond yr oedd ei fam wedi sgwennu cerdyn a'i roi yn ei bag cyn iddo gychwyn a stamp arno. 'Doedd isio Wil bach wneud dim ond ei bostio ar ôl cyrraedd.

Annwyl Fam,

Wedi cryaedd yn saff - mae pawb wrth eu bodd yma.

Cofion oddi wrth
Wil.

LOG BOOK YR YSGOL - 10-3-29:

Tempar ddrwg heddiw ar Jones Standard Five - signed, Yr Ysgolfeistr.

11-3-29: Tempar dda heddiw ar y Sgwlyn - signed, Jones Standard Five.

Y MINS PEIS - Mrs Jones, No 6 - "Glywaist ti fod ci Tŷ Pen wedi dwyn mince peis o Tŷ Draw?"

Mrs Jones No. 10 - "Naddo, dyna'r rhai cyntaf gafodd o erioed reit siwr!!"

FFARWELIO A CHROESAWU - Mae wedi dod i'n rhan unwaith eto fel pentref i ffarwelio â theulu arall sydd yn symud i fyw i Lanberis. Er y tristwch rhaid dymuno yn dda i Mrs N. Williams, Tanybryn, Wendy ac Anne yn eu cartref newydd. Ar yr un pryd llawenydd yw cael croesawu dau deulu newydd yma, sef Shirley a'i phriod a'r plant i'w hen gartref Tanybryn a Mr a Mrs Baylis a'r plant i Westy'r Faenol. Dymunir popeth gorau iddynt yn eu cartref newydd. Bydd pump o blant newydd yn gaffaeliad i'r ardal a gobeithir y byddant yn hapus yn ein plith.

GWYLIAU - Yn ystod gwyliau y teulu yn Benidorm, Sbaen, ddechrau Tachwedd 'roedd y gwesty yn rhedeg cystadleuaeth gwisg ffansi a phenderfynodd Karen Ann Price, y Llythyrdy wisgo yr hen wisg Gymreig ac er mai prin ddwy flynedd sydd er pan ddaeth Karen yma i fyw yn uniaith Saesneg, fe ganodd gân Gymraeg a daeth yn gydradd gyntaf a chafodd gymeradwyaeth fyddarol. Ar y diwedd, daeth amryw o Gymry oedd yn aros yn y gwesty i'w llongyfarch. 'Rydym ninnau hefyd yn ei llongyfarch am roi cyhoeddusrwydd i Gymru mewn gwlad ddieithr. Dyma lun Karen yn canu i'r meic yn y gwesty.



THEATR GWYNEDD BANGOR

Swyddfa Docynnau: Bangor 51708

21 RHAGFYR - 16 IONAWR

Perfformiadau 2.00: 22-23, 29-31 Rhagfyr, 2, 6-9, 13-16 Ionawr.

Perfformiadau 7.00: 21-23, 29-31 Rhagfyr, 2, 5-8, 12-15 Ionawr.

£2.50 (Oedolion) £1.80 (Plant a Phensiynwyr)

Plant mewn parti: £1.50

DYDDIADUR

RHAGFYR

20 Sul: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr - 'Carolau' dan lywyddiaeth Mrs Nansi Roberts, Annedd Wen.

DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwys - Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Llanddinorwig am 5.30.

ARDAL - Cyngerdd yn Theatr Gwynedd gyda Côr y Traeth, Mabel Roberts (Soprano), 'Gwlith' (grŵp o Fro'r Eco) a Seindorf Deinioelen. Hefyd, canu cynulleidfao.

21 Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

WAUNFAWR: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yn y Foelas.

24, Gwener: LLANRUG: Y Cyngor Eglwys - Gwasanaeth Plygain am 7 o'r gloch y bore yng Nghapel Ponrhythallt.

DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwys - Gweinyddir y Cymun yn Festri Capel Disgwyllfa am 9.30 y bore.

LLANRUG: Eglwys Sant Mihangel 10.30 a.m. Cymun Bendigaid - Croeso i bawb.

27, Sul: LLANRUG: Eglwys Sant Mihangel 3.30 p.m. Gwasanaeth Carolau'r Plant.

28, Llun: LLANBERIS: Ras Bramiau Noddedig dan nawdd y Pwyllgor Pêl Droed.

31, Iau: LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr - Gwylnos yng ngofal Mrs Jean Davies a Mrs Mair Jones.

IONAWR

4, Llun: DEINIOLEN: Cyfarfod dan nawdd Cyngor Eglwys Capel Libanus 7.00 p.m.

6, Mercher: WAUNFAWR: Cyfarfod i bawb sydd â diddordeb yn Ffug-eisteddfod bro'r Eco 8.00 p.m.

11, Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched yn ysgol Gwaungynfi, 7.00 p.m.

SYMBOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN 1983

Y mae cynllun symbol swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1983 yn enghraifft arall o'r syniadau newydd sydd wedi dod o'r Ynys yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynllun anarferol yn rhoi'r pwyslais ar hanes Môn yn hytrach nag ar ddigwyddiadau enwog mwy diweddar. Yn pwysleisio'r hen draddodiadau, y mae'n dangos cerrig hynafol ym Mhenrhos Feilw i'r gogledd o Borth Dafarch sy'n rhan o gylch mwy yn cynrychioli Cylch yr Orsedd ei hun. Dangosir y cerrig yn erbyn cefndir bwthyn cerrig wedi'i wyngalchu sy'n nodweddiadol o Fôn.

Creuwyd y symbol ar y cyd gan yr artist enwog o Fôn, Mr Kyffin Williams RA, a Mr Robert Williams, y cynllunydd graffig o Fôn sy'n gweithio o'i stiwdio 'MAGMA' ym Miwmares. Ef a gynlluniodd fathodyn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'i Chyffiniau. Kyffin

DEINIOLEN: Pwyllgor blynyddol cangen Plaid Cymru yn Ystafell y Seindorf am 7.00 p.m.

25, Llun: DEINIOLEN: Cymdeithas Lenyddol Undebol yn ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 p.m.

DYDDIADAU I'W COFIO

5 Chwefror: ARDAL - Ffug-eisteddfod bro'r Eco.

18 Chwefror: LLANRUG: Theatr Bara Caws gyda'u cynhyrchiad diweddaraf. Gwylwch y posteri.

Williams a ddatblygodd y cynllun oddi wrth luniau bras o'r cerrig a'r cefndir. Cytunodd y ddau y dylid cael rhywbeth newydd yn lle'r llu syniadau symbolaidd a dderbyniwyd fel canlyniad i gystadleuaeth agored. Dangosai nifer o'r rhain y pontydd ar draws y Feni, ond penderfynwyd tanlinellu hen etifeddiaeth ddiwylliedig yr ynys a chofadeiliau hynafol.

Defnyddir y symbol yn helaeth ar hysbysebion, taflenni, papur ysgrifennu a sticeri ceir yn ogystal ag ar y bathodynau a'r teis oedd mor boblogaidd yn yr Eisteddfod eleni.

PENBLETH

Cwblhewch y sgwar yma drwy osod y rhifau o 1 i 16 yn y sgwarau bach. Cewch ddefnyddio pob rhif felly un waith yn unig. (Mae 16 sgwar bach.)

A dyma'r gamp; mae'n rhaid i bob rhes ar draws, bob colofn fertigol a'r ddwy res o gornel i gornel gael yr un cyfanswm pan ydych yn adio'r rhifau ynddynt.

Cliw: mae'r rhif fydd yn y fôrnel chwith uchaf yn uwch na'r rhif fydd yn y gornel dde isaf.

Gydag ychydig o lwc, cewch yr ateb yn y rhifyn nesaf.

		5	12
	15		
		10	
13			

DWEUD STORI'R GAROL WRTH Y PLANT



Mrs M. Lloyd Williams yn dweud stori'r garol Dawel Nos yn ysgol gynradd Llanrug yn ddiweddar. Ysgrifennodd Mrs Williams yr hanes i ddarllenwyr yr Eco yn y rhifyn diwethaf.

YMA A THRAW

Rwy'n chwilio fy nghalon am eiriau
I ddatgan fy niolch yn llawn
I ddosbarth o fechgyn ardaloedd
Bwrzasodd eu hamser a'u dawn.

I geisio argraffu'n syml
Newyddion cwm a thre
I'r rhai sy' mhell ac agos
Gorllewin, Gogledd a'r De.

Mae ynddo pob peth a geiswch
O newyddion pwy a phawb
Y rhai sy'n gorwedd mewn cystudd
A'r rhai sy' a'u calonnau yn llawn.

Pob hwyl Arwel a Selwyn
Twrog, Dafydd, Tony a John.
Mae blas ymhob un o'r cyfresi
Ni chefais ynddynt 'run siom.

Rhaid terfynu yn awr gyda'm teyrnged
A diolch o galon i chi
Am y fraint o ddarllen iaith bro fy mebyd
Heb yr 'Yes you know, and you see.'

Stanley Griffiths

Harrogate (gynt o Gwm y Glo)

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh
Development Agency



Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Dda

i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS.
Ffôn: 202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn


SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penylllyn 236.



CHWARAEON

Dim chwaraeon allanol y tro hwn – OND digon o ddifyrion i'ch cadw'n ddiddig am gyfnod y gwyliau – a siawns i ennill gwobrau.

CWIS DIWEDD BLWYDDYN . . .

ROEDD O'N DEUD YN YR ECO . . .

Os oes gennych chi gof fel eliffant, neu gwell fyth os ydych chi'n cadw ôl-rifynnau o'r Eco mi ellwch yn hawdd ateb yr ugain cwestiwn isod. Cwestiynau ydynt ar bethau a ymddangosodd yn yr Eco yn ystod 1981. Fel y gwelwch, nid ydynt yn nhrefn y misoedd. Rhewch gynnig arni ac anfonwch yr atebion i: **Twrog Jones, 23 Glanffynnon Llanrug**. Efallai mai eich enw chi a ddaw allan o'r het i ennill y wobwr o £5.

1. Beth yw enw'r cymeriad cartwnaidd fu'n ymddangos yn yr Eco o bryd i'w gilydd yn ystod 1981?
2. Enwch y cwpanau a enillwyd gan dîm pêl-droed Llanberis y tymor diwethaf.
3. Machynlleth: cyntaf yn Adran D allan o naw. Pwy?
4. Pa ddau frawd o'r fro fu'n cynrychioli Cymru mewn cystadlaethau sgîo ym Mwlglaria?
5. Mesurydd ei hamserau – a gafodd
I gofio'i herthyglau,
Llawenydd roes i'n llannau
Ym mhapur 'Y bur hoff bau'.
Englyn gan y Prifardd Gwilym R. Jones i rhywun y mae darllenwyr yr Eco'n gyfarwydd â hi. Pwy ydi hi a beth yw'r achlysur?
6. Beth yw enw côr cymysg Bethel?
7. Beth yw'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng clybiau codi pwysau Dinorwig a Llanrug?
8. Pwy oedd y ddau ŵr o'r un stryd yn Llanberis a enwyd yn rhestr Anrhydeddau Dechrau'r Flwyddyn?
9. I ba wlad yr aeth plant ysgol gynradd Llanrug ar eu gwyliau yn y gwanwyn?
10. Beth yw enw'r grŵp o Ysgol Uwchradd Bryn'refail a enillodd ar y gân werin fodern yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd?
11. Pwy fu'n gofyn i bobl Penisa'rwaun ddal eu Dwylo'i Fyny?
12. 23 Mai 1981. Digwyddiad pwysig yn y fro ac i lôn-garwyr led-led Cymru. Beth?
13. Ym mha bentref y mae dwy ysgol a'u dyfodol yn ansicr?
14. Pryd y dechreuwyd ail-lenwi llyn Peris?
15. Beth yw teitl hanesion 'Yr Hen Dderwydd'?
16. Pa gêm a ddisgrifiwyd ar y dudalen chwaraeon, ac a ysgogodd un llythyrwr i'w galw'n 'rwtsh babiaidd'?
17. Beth sy'n arbennig ynglŷn â theitl tudalen y plant?
18. Pwy fu'n gyfrifol am sgwennu 'Storiâu'r Cyfar Main'?
19. Pa ffenestr a welodd olau dydd am y tro cyntaf ers blynnyddoedd yn ystod misoedd yr haf?
20. Pwy neu beth a fu'n dathlu pen-blwydd yn ddeg oed eleni, a chael teisen arbennig i gofio'r achlysur?

ENWOGION Y FRO

Pwy oedd . . .

1. yn 'Frenhines y Llynnoedd' yn ôl Pennant.
2. yn byw'n Y Gelli, Llanddeiniolen, tra'n 'sgwennu 'Perl mewn Adfyd'.
3. yn rheithor Llanrug a Llanberis ac yn fab i Peter Williams.
4. yn fardd cenedlaethol, ac yn dysgu am gyfnod yn Ysgol Brynrefail.
5. yn dychwelyd o Fangor ac a foddodd yn afon Cegin ger Braich Riffri.
6. yn cerdded i Gae Metta i chwarae yng Nghytiau'r Gwyddelod.
7. yn filwr a anrhydeddwyd â'r 'Victoria Cross'
8. "y dewraf o'n hawduron"
9. awdur a thestun y nofel 'Grym y Lli'.
10. yn cael trafferth i fynd i'w wely, ond yn ei chael yn llawer anos dod hono! – yn ôl ei englyn.

TEITHIO

Pwy fu:

1. Ar Wib yn Sweden
2. Ar siwrnai mewn Hen Siandri
3. Yn y Ddinas ddihenydd.
4. Yn alltud o Reithor yn Lawrenceville, Virginia.
5. Yn teithio ar ddau gyfandir
6. Yn y sowth, a gadael ei wraig
7. Ar ffordd yr ucheldir iach
8. Yn chwilio am yr Indiaid Cymreig
9. Mewn anial dir yn crwydro yma a thraw.
10. Dros y mynydd yn Llanybwll yn syrthio mewn cariad â Nel.



Chlywais i erioed am Ynys Plwm Pwdin, OND . . . Ble'n y byd mae:

1. Llyn Reindeer
2. Mynyddoedd Snowy
3. Llyn Rudolf
4. Rhaeadr Angel
5. St. Niklaas
6. Hollywood.
7. Ynys Christmas

GWYBOD EICH CYMRAEG

Beth yw ystyr y geiriau Cymraeg canlynol: (Dewiswch yr ateb cywir ond peidiwch â defnyddio geiriadur).

1. **ACHYDD**
a. Carw gwrywaidd heb dyfu cyn
b. Orlheiniwr achau
c. Person atgas.
2. **BEUDAG**
a. Ffrwyn raff am ben buwch
b. Rhan o'r beudy
c. Rhan uchaf y llwnc
3. **CARDYDWYN**
a. Cardodyn y ddinas yn hytrach na'r wlad
b. Y mochyn gwannaf mewn tor
c. lâr wedi peidio â dodwy
4. **DADLAITH**
a. eira neu rew yn dadmer
b. sgwrs hir a diflas
c. 'rising damp'
5. **GAMBO**
a. trol ddwy olwyn

- b. llwybr igam-ogam
- c. tymor dipio defaid.

6. LLAETHYGEN

- a. afiechyd ar bwrs y fuwch
- b. letysen
- c. proses o drin llaeth yn y ffatri

7. MORDDWYD

- a. siwrnai ar y môr
- b. y rhan o long sy'n cadw'r hwyliu
- c. rhan o'r goes rhwng y pen-glin a'r glun

8. PEIRAN

- a. peiriant
- b. cwm
- c. does mo'r fath air yn bod

9. TAEOG

- a. Diffyg ar y lleferydd
- b. math o gyflath
- c. gŵr caeth.

10. YSGAW

- a. blodau porffor a dail pigog
- b. blodau gwyn ar goeden yn dwyn aeron duon.
- c. gwynt y dwyrain

BLE'N Y BYD MAE:

1. Canada, 2. Awstralia, 3. Kenya, 4. Venezuela, 5. Gwlad Belg, 6. California, 7. Y Môr Tawel/Pasifig.
1. Marged uch Ifan
2. Huw Lewys
3. Peter Bailey Williams
4. R. Williams Parry
5. Dafydd Ddu Eryri
6. W.J. Gruffydd
7. Syr Hugh Rowlands
8. T. Rowland Hughes
9. Emrys Jones (awdur) John Evans
10. Alafon: dyma'r englyn:
Nid hawdd yw myned i ddo – ar nos oer,
Er cael cryn swm arno;
Wit, mae hi'n dasg drom; ond Oi
Hanes y dod ohono!

TEITHIO

Blodeuwedd

MERCH ANNATURIOL

1. Marged uch Ifan
2. Huw Lewys
3. Peter Bailey Williams
4. R. Williams Parry
5. Dafydd Ddu Eryri
6. W.J. Gruffydd
7. Syr Hugh Rowlands
8. T. Rowland Hughes
9. Emrys Jones (awdur) John Evans
10. Alafon: dyma'r englyn:
Nid hawdd yw myned i ddo – ar nos oer,
Er cael cryn swm arno;
Wit, mae hi'n dasg drom; ond Oi
Hanes y dod ohono!

ENWAU'R AFAL

1. Dafydd Jenkins, mewn llyfr o'r un enw, 2. Williams, yn 'Storiâu'r Henllys Fawr', 3. Y Bardd Cwsg. (Gwledigaeth Cwrs y Byd), 4. Goronwy Owen o Fôn, 5. T. Ifor Rees, mewn cyfrol o deithiau o'r enw 'Sajama', 6. William Jones, 7. Y Sipsiwn (Eitfon Wyn), 8. John Evans, 9. William Williams, 10. John Davies yn 'O Law i Law'.
1. Herod, Mair, Steffan, Santa, Melchior, Josef
2. Huw Lewys
3. Peter Bailey Williams
4. R. Williams Parry
5. Dafydd Ddu Eryri
6. W.J. Gruffydd
7. Syr Hugh Rowlands
8. T. Rowland Hughes
9. Emrys Jones (awdur) John Evans
10. Alafon: dyma'r englyn:
Nid hawdd yw myned i ddo – ar nos oer,
Er cael cryn swm arno;
Wit, mae hi'n dasg drom; ond Oi
Hanes y dod ohono!

ATEBION: Pwdin Rhannu'r

TORR'R GANNWYLL

SEREN BETHLEHEM

ATEBION – Gwybod eich

Cymraeg.

Croesair Lluniau: Tedi pêl (ar draws), Top dol (llawr).

Sawl Triongl – 35

Allwedd! – 4 a 9

Plu Eira – 4 a 12